Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

# Arfarniad Ardal Gadwraeth Talgarth




Medi 2016

# ARFARNIAD DRAFFT ARDAL GADWRAETH TALGARTH

## Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Y Cyd-destun Polisi Cynllunio
3. Lleoliad a Chyd-destun
4. Nodweddion Cyffredinol a Chynllun
5. Lleoliad yn y Dirwedd
6. Datblygiad Hanesyddol ac Archaeoleg
7. Dadansoddiad Gofodol
8. Dadansoddiad o Nodweddion
9. Diffiniad o Ddiddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth
10. Ffin yr Ardal Gadwraeth
11. Crynodeb o’r Materion
12. Cynnwys y Gymuned
13. Canllawiau Lleol a Chynigion Rheoli
14. Manylion Cyswllt
15. Llyfryddiaeth
16. Rhestr o Dermau Pensaernïol
17. Atodiadau, Mapiau a Lluniau

# 1. Cyflwyniad

**1.1** Mae adran 69 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i benderfynu, o bryd i'w gilydd, ba rannau o'u hardal sy'n ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol gwarchod neu wella eu cymeriad neu eu golwg, a dynodi'r ardaloedd hyn yn ardaloedd cadwraeth. Mae craidd hŷn Talgarth yn un o bedair ardal gadwraeth ddynodedig yn y Parc Cenedlaethol.

**1.2** Mae gan awdurdodau cynllunio ddyletswydd hefyd i warchod yr ardaloedd hyn rhag gwaith datblygu a fyddai'n niweidiol i'w cymeriad hanesyddol neu bensaernïol arbennig, ac adlewyrchir hyn yn y polisïau yng Nghynllun Datblygu Unedol y Parc Cenedlaethol.

**1.3** Diben yr arfarniad hwn yw diffinio nodweddion ardal sy'n ei gwneud yn deilwng o statws ardal gadwraeth. Mae arfarniad clir a chynhwysfawr o gymeriad ardal yn rhoi sail gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch rheoli datblygiadau a datblygu mentrau i wella'r ardal. Mae hefyd yn golygu y bydd modd datblygu fframwaith polisi cadarn ar gyfer rheoli'r ardal yn y dyfodol, y gellir ei ddefnyddio fel sail ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio a chynigion eraill ar gyfer newid. Mae Arfarniad Talgarth hefyd yn cynnwys adolygiad o ffin bresennol yr ardal gadwraeth; ymchwiliad i'r angen am unrhyw reolaethau arbennig yn ychwanegol at y pwerau cynllunio presennol; y diffiniad o gynllun gwella i lywio ceisiadau am gymorth grant a chynigion datblygu; a chanllawiau dylunio ar gyfer trigolion lleol a buddsoddwyr mewnol.

**1.4** Mae'r adroddiad arfarnu yn dilyn fformat a ddefnyddiwyd yn wreiddiol gan English Heritage i roi cyngor ar arfarniadau a'r gwaith o reoli ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn ystyried gwaith sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan Cadw ar 'ddisgrifio nodweddion lleol'. Bydd yr adroddiad drafft yn destun ymgynghoriad trylwyr a helaeth â grwpiau â diddordeb, sefydliadau arbenigol a thrigolion lleol.



## 2. Y Cyd-destun Polisi Cynllunio

**2.1** Mae sawl dogfen gynllunio berthnasol sy'n ymwneud â Thalgarth a'i hamgylchedd adeiledig:

- Diweddariad 2008 o Gynllun Gofodol Cymru, lle caiff Talgarth ei nodi'n Anheddiad Allweddol o fewn clwstwr daearyddol sy'n cynnwys Aberhonddu a'r Gelli Gandryll; mae pwyslais ar gydweithio rhwng cymunedau i gefnogi eu hanghenion eu hunain ac ar hyblygrwydd, entrepreneuriaeth a chynnwys y gymuned wrth bennu twf yn y dyfodol;

Ers yr arfarniad diwethaf, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi mabwysiadu'r Fframwaith Datblygu Lleol (Rhagfyr 2013). Y polisïau sy'n ymwneud ag ardaloedd cadwraeth ac adeiladau ar restrau lleol yw Polisi 19 a Pholisi 18.

**Polisi 19**
Datblygiad sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth: Caniateir datblygiad newydd a newidiadau i adeiladau presennol o fewn lleoliad Ardal Gadwraeth neu sy'n effeithio ar leoliad Ardal Gadwraeth dim ond lle y bydd yn gwarchod neu'n gwella cymeriad neu olwg yr ardal, a lle y mae'r dyluniad, yr holl ddeunyddiau adeiladu, y mesuriadau a'r manylion i gyd yn briodol i'r Ardal Gadwraeth. Caniateir dymchwel yn llwyr neu'n sylweddol unrhyw adeilad neu adeiledd anrhestredig o fewn Ardal Gadwraeth sy'n ddarostyngedig i ganiatâd Ardal Gadwraeth, dim ond lle y ceir y cyfiawnhad cryfaf. Pan fwriedir amnewid adeilad o'r fath, bydd angen llunio contract ailddatblygu cyn rhoi caniatâd ardal gadwraeth.

**Polisi 18**
Diogelu Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol Caniateir datblygiad sy’n effeithio ar adeiladau sy'n gwneud cyfraniad pwysig at gymeriad a diddordeb yr ardal leol, fel y'u hamlinellir ar y rhestr leol, lle na fyddai'n cael effaith niweidiol arwyddocaol ar eu golwg arbennig, cyfanrwydd pensaernïol neu osodiad.

Mae hen safle ysbyty Canolbarth Cymru wedi'i neilltuo fel safle datblygiad cymysg i'w ddefnyddio at ddibenion preswyl a chyflogaeth o fewn Fframwaith Datblygu Lleol Cymeradwy Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Rhagfyr 2013).

Cwmpesir y dref gan Gynllun Gweithredu Lleol Talgarth a'r Cylch, a luniwyd gan Grŵp Adfywio Talgarth a'r Cylch: sy'n gonsortiwm gweithgar o fuddiannau awdurdodau lleol, busnesau a chyrff gwirfoddol, a gynorthwyir gan y gymuned leol. Ymhlith blaenoriaethau eraill, nododd y Cynllun Gweithredu fod angen adnewyddu a defnyddio siopau gwag; gwella golwg y dref; rhoi cyngor cynllunio cynhwysfawr; a datblygu cynlluniau penodol ar gyfer safleoedd “porth” allweddol.

Ers yr adolygiad blaenorol o'r ardal gadwraeth mae rhestr leol wedi'i chymeradwyo ar gyfer cymuned Talgarth ac fe'i dangosir yn Nhabl 1 (Tud. 66)

Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ond mae cryn dipyn i'w gyflawni o hyd.
Mae Brîff Datblygu Talgarth (Rhagfyr 2008) wedi'i ddisodli gan y Fframwaith Datblygu Lleol a chynigion newydd sy'n cael eu datblygu gan berchennog hen safle Ysbyty Canolbarth Cymru.

Mae Cyngor Tref Talgarth wedi gofyn i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ymgynghori ynghylch cyflwyno Cyfarwyddiadau o dan Erthygl 4(2) o fewn ffin yr ardal gadwraeth. Nodir yr adeiladau arfaethedig a allai gael eu cwmpasu a pha hawliau datblygu a ganiateir a allai gael eu dileu a pham yn nhabl 2 ar dudalen 67.

## 3. Lleoliad a Chyd-destun

**3.1** Lleolir Talgarth ym Mhowys, tua 10 milltir (15km) i'r dwyrain-ogledd-ddwyrain o Aberhonddu ac wyth milltir (12km) i'r de-dde-orllewin o'r Gelli Gandryll, a leolir ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae nifer o aneddiadau bach i'r gorllewin o ganol y dref, sef Trefeca i'r de-orllewin; Bronllys i'r gogledd-orllewin; ac Aberllynfi i'r gogledd. Mae'r dref yn ganolbwynt llwybrau, gyda ffordd yr A479 i Grughywel i'r de; ffordd yr A470 i Aberhonddu i'r gogledd; a'r A4078 a'r B4560 sy'n rhedeg o'r gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin drwy ran o'r anheddiad. Yn ddiweddar, agorwyd ffordd osgoi i'r gogledd o'r dref sy'n defnyddio rhan o'r A479 ac sy'n cysylltu â'r A470 ac sydd hefyd yn darparu ffordd osgoi ar gyfer Bronllys i'r de o'r anheddiad.

**3.2** Saif y dref o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar lethrau'r Mynyddoedd Du sy'n wynebu'r gogledd-orllewin ac sy'n codi'n ddramatig i dros 800m. Mae copa Mynydd Troed, oherwydd ei siâp unigryw, yn dirnod arbennig i'r de-ddwyrain o'r dref. Lleolir copaon canolog Bannau Brycheiniog i'r de-orllewin o'r dref a saif Talgarth ar lwybr naturiol ar dir is rhwng y ddwy ardal ucheldirol. Mae agosrwydd golygfeydd ucheldirol, gwyllt ac ardaloedd glan afon mwy amaethyddol a llai garw ar hyd coridor llydan Afon Gwy yn golygu bod y dref yn sefyll mewn cylchfa ryngbarthol tirwedd nodedig, a nodweddir gan fryniau crwn isel, cyrsiau dŵr endoredig a choetir. Mae'r rhain yn asedau i drigolion lleol ac ymwelwyr ac mae'r dref yn ganolbwynt da ar gyfer crwydro'r ardal, cerdded a marchogaeth.



***Mynydd Troed***

**3.3** Lleolir hen safle Ysbyty Canolbarth Cymru, sy'n gyfadail a adeiladwyd at y diben o fewn parcdir a thir amaethyddol, tua 500m i'r de-ddwyrain o ganol y dref. Erbyn hyn lleolir parc busnes ar ran o'r safle ac mae'r rhan arall yn ddiffaith ac yn aros am ddefnyddiau newydd addas.

**3.4** Yn ddiau, y 19eg ganrif oedd cyfnod mwyaf ffyniannus y dref ac mae colli swyddi lleol, megis y rhai yn yr Ysbyty, a ffactorau cymdeithasol ac economaidd eraill wedi arwain at ddirywiad ffisegol, a amlygir gan adeiladau nas defnyddir ddigon neu nas defnyddir o gwbl, a cholli busnesau a siopau. Gwnaed cryn ymdrech yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf i atal y dirywiad hwn, drwy lunio Strategaeth Adfywio a Chynllun Tref a sicrhau buddsoddiad sylweddol gan y sector cyhoeddus mewn seilwaith.

**3.5** Gwnaed rhywfaint o gynnydd ac erbyn hyn mae mwy o siopau ar agor ond mae rhai gwendidau i'w gweld o hyd ym mywyd masnachol ac economi'r Dref lle mae'n cymryd peth amser i ddod o hyd i denantiaid newydd ar gyfer siopau sy'n dod yn wag.


## 4. Nodweddion Cyffredinol a Chynllun

**4.1** Mae Talgarth yn dref fach a leolir o fewn cefn gwlad deniadol, sy'n gysylltiedig â chwrs afon ac esgair a thir uwch i'r dwyrain o ganol y dref. Mae tŵr eglwys y plwyf yn dirnod hanesyddol a gweledol ac mae Tower House yn ganolbwynt arall, gan ei fod yn nodi croesfan hanesyddol yr afon ac agosrwydd *man* canolog yn y Sgwâr. Mae'r craidd hanesyddol yn eithaf homogenaidd o ran y mathau o adeiladau, eu hoedran

a'u cynlluniau ond mae ymdeimlad o dref uchaf o amgylch eglwys y plwyf a thref isaf a ffurfir gan gyfres o lwybrau rheiddiol sy'n arwain at y Sgwâr, yn ogystal â chwrs Afon Ennig.

Ar yr olwg gyntaf ymddengys fod y cymeriad pensaernïol cyffredinol yn perthyn i ganol a diwedd y 19eg ganrif, gyda thafarndai, safleoedd masnachol, tai teras a thai ar wahân oll yn dangos manylion nodweddiadol megis arddulliau'r Cyfnod Clasurol a Chyfnod y Dadeni Gothig, blaenau siopau pren a nodweddion tai teras sy'n adlewyrchu'r hyn a welir yn y dyffrynnoedd diwydiannol i'r de. Fodd bynnag, mae cymeriad cynddiwydiannol cryf iawn ledled y dref, yn enwedig o amgylch yr eglwys, gyda phatrwm o lonydd lled-wledig, waliau cerrig, adeiladau fferm a choed aeddfed. Ceir patrwm datblygu mwy gwasgaredig ar hyd y llwybrau i'r de o ganol y dref hefyd, gydag ambell ffermdy mwy o faint ynghyd â therasau diweddarach. Hyd yn oed yn yr ardal ganolog, ceir adeiladau hŷn, gan gynnwys tai canoloesol a thai sy'n dyddio o'r 17eg ganrif yn High Street a thai bonedd mwy o faint sy'n dyddio o'r 18fed ganrif a'r 19eg ganrif.

**4.2** Mae i'r dref **gynllun** cnewyllol sy'n gysylltiedig, o bosibl, â'r patrwm strydoedd canoloesol, gyda llwybrau rheiddiol yn Bronllys Road, Hay Road, The Bank a Heol yr Eglwys, High Street a Penbont Road, gydag estyniad ar hyd Bell Street, sydd oll yn arwain at y man pontio canoloesol. Mae Regent Street hefyd yn rhedeg i mewn i Bell Street o'r de ond mae bellach yn ffordd bengaead. Mae'r man croesi afon canolog a'r Sgwâr yn ganolbwynt amlwg ar gyfer gwaith datblygu diweddarach ond mae'r ail groesfan ar Bronllys Road ger The Elms yn ffurfio canolbwynt llai o faint hefyd. Adeiladwyd pont newydd yma yn 1984 ond roedd y bont wreiddiol yn debyg o ran ei hadeiladwaith i'r bont ganolog, sydd bellach wedi'i rhestru. Mae sawl tŷ sy'n dyddio o ddiwedd y cyfnod canoloesol a'r cyfnod ôl-ganoloesol, sydd wedi goroesi yma, yn awgrymu bod High Street yn ffordd drwodd bwysig am gyfnod sylweddol. Ceir nifer o is-lonydd rhwng y llwybrau rheiddiol, megis Heol Las a dau lwybr, sef New Street a Cottage Lane, ar y naill ochr a'r llall i'r Great House Barn, o Bronllys Road i Hay Road a'r hen lôn sy'n rhedeg o Church Fields i lawr i Hay Road (a arferai arwain at Tower Farm ac a elwir yn Tower Lane).



Cynllun: Deuffocal o amgylch yr eglwys a chroesfan yr afon

**4.3** Gellir disgrifio'r cynllun ymhellach fel un deuffocal, gyda ffocws arall o amgylch eglwys y plwyf. Mae dwy lôn gyfochrog, sef Back Lane a The Bank, yn rhedeg i fyny'r esgair o'r Sgwâr, y gyntaf yn uniongyrchol i'r eglwys, ar hyd lôn gulach Mount Pleasant, a'r ail i Heol yr Eglwys. Ceir cyswllt tangiadol bach rhwng y ddwy lôn ger Church Villa ac mae'r patrwm ffyrdd yn creu bloc trionglog o ddatblygiad o amgylch yr eiddo. Awgrymwyd mai ar y darn trionglog hwn o dir y cynhelid y farchnad. Mae Heol yr Eglwys yn ymuno â llwybr culach School Street ac mae Tower Lane yn ffurfio trydydd llwybr cyfochrog i lawr yr esgair i Hay Road. Mae'n bosibl bod i'r ardal hon gynllun hynafol, sy'n gysylltiedig â'r eglwys, a'i bod yn rhagddyddio'r groesfan ganoloesol.







***Y ddau ganolbwynt: Y Sgwâr a'r ardal o amgylch Eglwys y Plwyf***

**4.4** Mae'r lleiniau yn amrywio o ran eu siâp a'u maint a phrin yw'r dystiolaeth o waith cynllunio bwriadol, ar wahân i res o leiniau tebyg ar ochr ogleddol High Street a rhaniadau rheolaidd a grëwyd gan derasau diweddarach sy'n dyddio o'r 19eg ganrif.

**4.5** Mae tystiolaeth o fapiau **hanesyddol** yn bwysig iawn. Dengys Map Degwm 1841 batrwm strydoedd syml sy'n debyg i'r un presennol, gyda datblygiadau ar hyd Bronllys Road, High Street, Y Sgwâr, Regent Street, Heol Las a Penbont Road ac i fyny The Bank a Back Lane. Mae gwaith datblygu ar Hay Road yn gyfyngedig i'r pen deheuol yn unig. Dangosir tri chapel anghydffurfiol a cheir tramffordd ceffylau i'r gorllewin o'r dref, ar hyd llinell y rheilffordd a'r ffordd osgoi ddiweddarach (sy'n rhedeg ar hyd rhan o Dramffordd y Gelli Gandryll, a adeiladwyd rhwng 1811 a 1816). Mae'r cynllun yn datblygu'n araf a fesul tipyn yn y 19eg ganrif ac ar ddechrau'r 20fed ganrif, gyda'r rheilffordd yn ffurfio elfen linellol bwysig ar ochr orllewinol yr anheddiad a'r llwybrau rheiddiol yn cael eu mewnlenwi gan dai teras a'u hymestyn, yn enwedig ar hyd Hay Road a Regent Street. Dengys un o fapiau'r Arolwg Ordnans dyddiedig 1887 y rheilffordd, yr ysgol, gwaith datblygu ar ochr ogleddol y Sgwâr a dwy lôn newydd rhwng Bronllys Road a Hay Road. Yn yr 20fed ganrif, mae ardal sylweddol o dai modern i'r gorllewin o ran ogleddol Bronllys Road, ger y New Inn, a datblygiadau llinellol ar hyd Hay Road i'w gweld.




***Talgarth yn 1887***

## 5. Lleoliad yn y Dirwedd


**5.1** Mae nifer o ddyffrynnoedd endoredig dwfn, gydag ardaloedd o goetir, yn ymestyn tuag at ddyffryn llydan Afon Gwy, a leolir tua 2 filltir (4km) i'r gogledd o Dalgarth. Mae'r massif ucheldirol yn cyferbynnu'r fawr â chwrs llydan, dolennog yr afon a lleolir Talgarth mewn cylchfa ryngbarthol o lethrau is, ar uchder o tua 90-180m uwchlaw'r Seilnod Ordnans, yn wynebu'r gogledd-orllewin tuag at Afon Dulas ac Afon Llynfi, sy'n cyfarfod ag Afon Ennig ger Castell Bronllys. Mae'r afonydd hyn yn llifo i Afon Gwy ger Aberllynfi. Mae daeareg gadarn yr ardal yn cynnwys Hen Dywodfeini Coch Defonaidd Ffurfiant St Maughan, sydd hefyd yn cynnwys cerrig llaid a lleidfeini. Mae priddoedd yn cynnwys siltiau hydraidd, dwfn uwchben llifwaddod afonydd yn y dyffrynnoedd afonydd llydan i'r gogledd o'r dref a phriddoedd cochlyd priddgleiog dros gerrig i'r dwyrain a'r de o'r anheddiad. Mae'r dirwedd iseldirol fwy llydan o ansawdd uchel, gyda nodweddion fel Llyn Llan-gors i'r de-orllewin a phatrwm cymhleth o fryniau crwn sy'n codi i dros 400m ar y naill ochr a'r llall i Afon Gwy.

**5.2** Mae ymylon dwyreiniol a deheuol Talgarth yn arbennig o ddeniadol, gyda chyfres o esgeiriau crwn yn codi o tua 150m yn y dref i dros 350m ar Fynydd Bychan. Mae bryn coediog arbennig o ddeniadol i'r dwyrain o'r dref, sef Park Wood, a nodweddir y lonydd dynesu dwyreiniol gan gulffyrdd dwfn drwy goetir neu lwybrau is ar draws cyrsiau dŵr, gyda golygfeydd o ddolydd gwyrddlas a hen safleoedd perllannau. Yn y dyffrynnoedd coediog rhwng yr esgeiriau ceir cyrsiau dŵr bach; rhaeadr ym Mhwll-y-Wrach; a ffermydd traddodiadol gwasgaredig. Mae datblygiadau llinellol ar Penbont Road, Regent Street a Hospital Road yn rhedeg i lonydd wedi'u gosod yn ddwfn rhwng cloddiau sy'n ymestyn ar hyd glan Afon Ennig, gyda golygfeydd pell o gopaon canolog y Mynyddoedd Du. Mae'r afon mewn lleoliad deniadol rhwng coed a llethrau


serth, gyda rhaeadrau a nodweddion eraill sy'n gysylltiedig â'r hen felin. Mae isafon (Ellywee) yn llifo o'r gogledd-ddwyrain.

**5.3** Mae lleoliad uniongyrchol y dref hefyd yn ased, gydag esgair amlwg sy'n ymestyn o'r gogledd i'r de ac sy'n codi i dros 150m, a nodir gan dŵr eglwys y plwyf ac ardal is, gymharol wastad ar y naill ochr a'r llall i Afon Ennig, y ceir mannau gwyrdd a therasau cyfochrog o ddatblygiadau o bobtu iddi. Mae'r ffordd ddynesu o'r gogledd, sy'n ymuno â Bronllys Road, yn dilyn cwrs dŵr gyda glannau glaswelltog a waliau cynhaliol o gerrig a nifer o goed.

**5.4** Mae **coed** yn elfen bwysig o gymeriad ac ansawdd tirwedd y dref, gyda sbesimenau neu grwpiau arbennig o bwysig ger yr hen orsaf reilffordd, ar hyd glannau Afon Ennig ar Bronllys Road (mae bedwen arian yn arbennig o amlwg), y tu cefn i Great House Farm, ar lethrau uchaf Back Lane, o flaen adeiladau'r ysgol newydd, a The Bank. Mae gan yr olaf a Heol yr Eglwys ymyl ddeheuol goediog ddeniadol. Mae gan fynwent y plwyf grwpiau o goed yw, ar ei ffiniau dwyreiniol a deheuol. Ar rannau o Penbont Road, yn enwedig lle mae'r afon yn llifo'n agos at y ffordd, mae grwpiau o goed yn cyferbynnu â grwpiau o fythynnod. Gwelir llain fwy trwchus o goetir ar ochr orllewinol y ffordd, lle mae'r afon yn troi'n sydyn. Mae'r mapiau isod yn nodi lleoliad y coed pwysig a grwpiau o goed. Mae Gorchymyn Diogelu Coed sy'n cwmpasu hen safle Ysbyty Canolbarth Cymru.





Coed pwysig a grwpiau o goed




**5.5** Mae agosrwydd golygfeydd dramatig ac esgeiriau uwch yn golygu bod cyfres o **olygfeydd** pwysig o fewn y craidd hanesyddol, yn edrych allan ohono ac yn edrych i mewn iddo.

- O ben gogleddol Bronllys Road tuag at y Tower House a'r bont;
- O lan orllewinol Afon Ennig wrth edrych tua'r dwyrain tuag at Great House Farm a Great House Barn;
- O'r bont wrth edrych tua'r gogledd ar hyd Afon Ennig;
- Ar draws y Sgwâr, i sawl cyfeiriad, yn enwedig o'r gogledd-orllewin tuag at Neuadd y Dref, tua'r gorllewin heibio i Tower House i High Street;
- Tua'r dwyrain a'r gorllewin ar hyd High Street;
- O'r prif faes parcio, i'r gogledd o High Street, ar draws i dŵr eglwys y plwyf, yr esgair o'i amgylch a llethrau coediog uwch Park Wood, a tharenni gorllewinol y Mynyddoedd Du y tu ôl iddynt;
- O Eglwys Ddiwygiedig Unedig Bethania dros y dref i Park Wood;
- I fyny Back Lane tuag at dŵr eglwys y plwyf;
- I lawr The Bank tuag at gefn Neuadd y Dref a dros y Sgwâr;
- O'r fynwent tua'r de tuag at y grŵp go fawr o dai sy'n dyddio o ddechrau'r 19eg ganrif ar Heol yr Eglwys;
- Ar hyd School Street tua'r de tuag at Heol yr Eglwys ac fel arall, gyda golygfeydd cyfyngedig o dŵr yr eglwys, waliau terfyn o gerrig a bythynnod sy'n dyddio o'r 19eg ganrif;
- O Heol yr Eglwys tua'r de-ddwyrain tuag at Fynydd Troed ac yn union i'r de dros yr afon lle y ceir dôl ddeniadol;
- I fyny Bell Street tuag at dirnod unigryw The Strand;
- I'r ddau gyfeiriad at hyd Regent Street;
- Cyfres o olygfeydd ar hyd Penbont Road, gyda golygfa wledig a mynyddoedd i'r de ac, yn y tu blaen, gwahanol grwpiau o fythynnod, waliau a choed.





*Golygfa o Eglwys Ddiwygiedig Unedig Bethania tuag at Park Wood*



# 6. Datblygiad Hanesyddol ac Archaeoleg

**6.1** Mae gan Dalgarth hanes cyfoethog, o ran ei thirwedd archaeolegol ehangach a'i chysylltiadau a'i holion ffisegol o fewn yr anheddiad ei hun. Yn rhan ogledd-orllewinol y Mynyddoedd Du ceir nifer o gloddweithiau cynhanesyddol a strwythurau cerrig, yn enwedig carneddau (mae carnedd hir Penyrwrlodd yn Nhrefeca yn enghraifft arbennig o dda o fath ‘Severn Cotswold’), crugiau hir, clostiroedd a bryngeyrydd bach, a welir yn y crynhoad amlwg o amgylch Aberllynfi (carneddau hir yn Little Lodge a Pipton a charnedd gron ger yr afon) ac ar y tir uwch i'r de ac i'r de-ddwyrain o'r dref, gyda chaer ddeufur ('bivallate') hirsgwar, fwy neu lai, ym Mhendre.

**6.2** Rhedai ffordd Rufeinig bwysig o'r Fenni i Gaer Aberhonddu gan ddilyn llinell ffordd fodern yr A40, fwy neu lai, gyda chaer ym Mhen-y-Gaer, ger Tre-tŵr. Oherwydd y llwybrau o amgylch massifs uchel y Mynyddoedd Du a Bannau canolog Brycheiniog a'r dyffrynnoedd afonydd hygyrch parhaodd yr ardal i fod yn borth pwysig i ganolbarth Cymru yn y cyfnod ôl-Rufeinig a'r cyfnod canoloesol. Ym Mronllys ceir olion sylweddol gorthwr cerrig silindrog ac mae myntiau cloddwaith yn Nhrefeca (dau safle), Aberllynfi, Pipton a Tredwstan, sydd oll yn amddiffyn croesfannau dros Afon Llynfi. Mae Castell Dinas, ym Mhengenffordd, yn gastell pwysig arall sy'n dyddio o'r 12fed ganrif ac fe'i lleolir ar y safle uchaf yng Nghymru a Lloegr, gyda rhagflaenwyr o'r Oes Haearn.

**6.3** Ymddengys fod Talgarth a'r ardal o'i hamgylch yn arbennig o bwysig yng nghyfnod ôl-Rufeinig yr ‘Oesoedd Tywyll’. Credir yn lleol mai'r ardal yw safle preswylfa frenhinol Brychan, Brenin Brycheiniog, yn y 5ed ganrif. Yn ôl traddodiad, claddwyd un o'i ferched, Gwendolen, ar safle'r eglwys ddiweddarach. Mae'n bosibl bod y fynwent yn cynrychioli ‘clas’ neu glostir mynachaidd. Ymddengys fod yr eglwys yn dyddio o'r 13eg ganrif a'r 14eg ganrif yn bennaf ac mae'n adeilad sylweddol. Fe'i rhoddwyd i Briordy Aberhonddu gan dirfeddiannwr lleol ar ddiwedd yr 11eg ganrif. Talgarth oedd canolfan weinyddol yr is-arglwyddiaeth Normanaidd neu'r *cantref’* o'r un enw. Tyfodd yn dref fach gyda 73 o diroedd bwrdais yn 1309 a chafodd siarter bwrdeistref ar ddechrau'r 14eg ganrif. Mae'r Tower House, a saif mewn lleoliad pwysig ger croesfan yr afon, yn strwythur canoloesol trillawr ychydig yn enigmatig, a dim ond dwy enghraifft o'r math hwn o adeilad a geir yn yr ardal. Mae'n bosibl bod y bont gyfagos yn dyddio o ddiwedd y cyfnod canoloesol. Mae'r Old Radnor Arms, yn High Street, yn dŷ neuadd sy'n dyddio o ddiwedd y cyfnod canoloesol, yr oedd ganddo ffrâm bren yn wreiddiol. Mae Great Pothamel, i'r gogledd-ogledd-ddwyrain o'r dref, yn dŷ pwysig sy'n dyddio o ddiwedd y cyfnod canoloesol, gydag ysgubor â ffrâm bren sy'n dyddio o'r 17eg ganrif.

**6.4** Ceir sawl adeilad ôl-ganoloesol hefyd, yn enwedig Great House Farm a Great House Barn (y 17eg ganrif a'r 18fed ganrif). Mae gan Westy'r Bell fanylion pwysig sy'n dyddio o'r 16eg ganrif. Mae'r Elms, ar Bronllys Road, yn dyddio o'r un cyfnod (ond gall fod ganddo elfennau cynharach) ac mae gan Swyddfa'r Post, yn High Street, graidd sy'n dyddio o'r 17eg ganrif. Cynrychiolir y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif gan nifer o dai bonedd a ffermdai mwy o faint, megis Ashburnham House yn High Street. Y dref oedd canolbwynt y Diwygiad Methodistaidd yng Nghymru yn 1735, a arweiniwyd gan ddyn lleol, sef Howell Harris, a sefydlodd gymuned Fethodistaidd o'r enw ‘Y Teulu’ yn Nhrefeca.

**6.5** Roedd caeau agored helaeth o amgylch Talgarth a Bronllys ond, yn Nhalgarth, mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth o system cae agored wedi'i dileu gan y gweithgarwch amgáu tir a welwyd yn y 18fed ganrif a gwaith datblygu diweddar i'r gogledd o ganol y dref. Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau yn y dref yn dyddio o ganol a diwedd y 19eg ganrif, sy'n adlewyrchu ei thwf sylweddol yn y cyfnod Fictoraidd. Mae Upper Enig House, ar Bell Street, yn enghraifft o dŷ pentref sy'n dyddio o ganol y 19eg ganrif a cheir grwpiau o dai teras o amgylch ymyl ddeheuol y fynwent, ar The Bank, ar hyd High Street, Bell Street a'r llwybrau rheiddiol deheuol. Cafodd Talgarth fudd mawr o ddyfodiad Tramffordd y Gelli Gandryll (y mae ei llinell i'w gweld o hyd y tu ôl i'r Elms ar Bronllys Road) ar ddechrau'r 19eg ganrif ac, yn ddiweddarach, Reilffordd y Gelli Gandryll, Henffordd ac Aberhonddu yn 1862, a helpodd i atgyfnerthu ei swyddogaeth fel tref farchnad i'r ardal o'i hamgylch. Mae Eglwys y Bedyddwyr yn dyddio o 1837; mae Neuadd y Dref yn dyddio o 1877 ac mae Bethlehem, sef yr eglwys Bresbyteraidd fawr, yn dyddio o 1850. Roedd melin ddŵr, a ddefnyddiwyd i ddechrau i wehyddu nwyddau gwlân ac, yn ddiweddarach, i falu ŷd, ac fel ysgol ac ysgoldy (1845), Gorsaf Heddlu a Llys Ynadon. Datblygiad pwysig ar ddiwedd y ganrif oedd adeiladu Ysbyty Canolbarth Cymru, i'r de-ddwyrain o'r dref, yn 1900. Caeodd y rheilffordd yn y 1960au, fel rhan o Adolygiad Beeching, ond mae adeiladau'r orsaf wedi goroesi'n rhannol ac ailddefnyddiwyd llawer o wely'r traciau fel ffordd yn 1974 ac fel rhan o gynllun ffordd liniaru Talgarth, ar ddechrau'r 21ain ganrif. Roedd 55 o siopau yn y dref ar ddechrau'r 20fed ganrif ond mae dirywiad economaidd wedi arwain at golli llawer o fusnesau. Fodd bynnag, mae gan y dref amrywiaeth o amwynderau modern a defnyddiau cymunedol, megis neuadd, ysgol fodern, gorsaf dân, llyfrgell, canolfan gymunedol (sy'n defnyddio adeilad yr hen ysgol gynradd), Canolfan Gwybodaeth ac Adnoddau Talgarth (TIRC), siopau (yn High Street ac ar ochr ogleddol y Sgwâr yn bennaf), tafarndai a gwestai a'r Great House Barn, sydd bellach wedi'i addasu i'w ddefnyddio at ddibenion busnes.




***Melin y Dref***

**6.6** O ran **archaeoleg**, ychydig o waith ymchwil systematig neu waith archwilio ffisegol sydd wedi'i wneud ond mae'r eglwys a'r fynwent yn destun arolwg manwl gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys, fel rhan o'i Harolwg o Eglwysi Sir Frycheiniog ac mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cynnwys yr ardal yn ei Disgrifiad o Dirweddau Hanesyddol, lle mae Talgarth yn rhan o Dirwedd Hanesyddol Canol Dyffryn Gwy. Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb defnyddiol o hanes tirweddau ac aneddiadau hysbys. Ceir gwaith ymchwil ychwanegol yng Nghyfnodolyn Brycheiniog Cyfrol 32 - 2000 "Excavations in Medieval Talgarth, Powys" a ysgrifennwyd gan Neil Ludlow.

**6.7** Mae gan Dalgarth a'r Cylch Gymdeithas Hanesyddol weithgar a fu'n casglu deunydd ar elfennau sy'n dyddio o'r 19eg ganrif a'r 20fed ganrif. Mae hyn yn werthfawr ac efallai y bydd yn helpu i greu darlun cynhwysfawr o hanes cymdeithasol ac adeiladau ac arteffactau. Yn ddiau, mae potensial i ehangu a chyfoethogi'r wybodaeth hon drwy ystyried pynciau eraill na wyddom fawr ddim amdanynt, yn enwedig dechrau cyfnod canoloesol yr anheddiad o amgylch yr eglwys; cynllun y dref a manylion lleiniau a pherchenogaeth tir ganoloesol hysbys; a manylion tai unigol. Gellir cyflawni'r olaf drwy wneud gwaith tirfesur a chofnodi. Ceir gwybodaeth mewn cyhoeddiadau blaenorol, megis *'Houses of the Welsh Countryside'* a *'Houses of Breconshire'* (gweler y Llyfryddiaeth ar ddiwedd yr adroddiad hwn) ac mae'n bosibl bod gwybodaeth arall yn Swyddfa Gofnodion y Sir ac, o bosibl, Amgueddfa'r Sir. Mae'r

rhestr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol, a luniwyd gan Cadw yn 1993, hefyd yn ddefnyddiol am fod y disgrifiadau yn eithaf cynhwysfawr ac am eu bod yn cynnwys gwybodaeth am gynlluniau a manylion mewnol.

**6.8** Gall fod cyfleoedd i wneud rhywfaint o waith archwilio ac arsylwi ar safleoedd fel rhan o'r broses cynllunio, mewn safleoedd sy'n amlwg yn rhai sensitif yn yr ardal gadwraeth. Yn ddiau mae olion diddorol gweithgareddau diwydiannol a masnachol ar ffurf siediau ac adeiladau allan eraill ac mae'r Dramffordd yn bwnc arall sy'n haeddu cael ei astudio'n fanwl.




***Y Sgwâr ar ddechrau'r 20fed ganrif (drwy garedigrwydd Cymdeithas Hanesyddol Talgarth a'r Cylch)***

## 7. Dadansoddiad Gofodol


**7.1** Mae pob ardal gadwraeth yn wahanol o ran ei chydberthnasau rhwng adeiladau, mannau cyhoeddus, gerddi a chefn gwlad agored. Mae canfyddiadau o'r ardal gadwraeth yn dibynnu ar uchder a dwysedd yr adeiladau, eu lleoliad mewn perthynas â'r briffordd, nodweddion ffiniau a chyfraniad coed, gwrychoedd a phrysglwyni mawr. Mae golygfeydd allan tuag at gefn gwlad oddi amgylch neu i mewn i'r anheddiad hefyd yn bwysig, yn ogystal ag effeithiau topograffi – y ffordd y mae ffyrdd a llwybrau yn esgyn ac yn disgyn a'u haliniad.

**7.2** Mae pob un o'r ffactorau hyn yn agweddau ar y **treflun**, yn ddisgrifiad o'r cymysgedd o adeiladau a'r mannau cyhoeddus a phreifat sy'n ffurfio amgylchedd y dref, drwy ddefnyddio'r elfennau canlynol gellir disgrifio golwg a chymeriad arbennig yr ardal gadwraeth:

- Y gyfres o olygfeydd a digwyddiadau a brofir wrth fynd drwy'r ardal;

- Naws agored a chaeedig gymharol yr ardal;
- Elfennau pwysig anheddiad hanesyddol megis nodweddion tirnod, lliw, ansawdd, graddfa, arddull a phersonoliaeth, a'r llu o fanylion llai ond pwysig sy'n cyfrannu at natur unigryw'r ardal leol.

**7.3** Mae gan Dalgarth asedau amlwg ar ffurf ei chynllun cyfansawdd, nifer o adeiladau hanesyddol deniadol, presenoldeb cwrs dŵr a newidiadau mewn topograffi. Mynegir cymeriad gofodol drwy geisio disgrifio'r gyfres o fannau a digwyddiadau mewn taith gerdded drwy'r dref, gan ddefnyddio un llwybr o'r gogledd i'r de ond gan gyfeirio at fân wyriadau a golygfeydd i gyfeiriadau eraill lle y bo'n briodol. Efallai y bydd hyn yn cyfleu naws y dref, gan fynd y tu hwnt i ddisgrifiadau cyfyngedig o bensaernïaeth. At hynny, crynhoir y **mathau** o fannau a drafodir, er mwyn darparu fframwaith mwy trylwyr ar gyfer ystyriaethau dylunio a chynllunio yn y dyfodol.





***Dilyniannu'r treflun a golygfeydd***

**7.4 Rhan o'r ardal gadwraeth:** byddai unrhyw gyfeiriad a llwybr yr un mor ddefnyddiol ond dewiswyd llwybr o'r gogledd, lle mae'r ffordd liniaru yn ymuno â Bronllys Road i'r

Sgwâr, ar hyd High Street, i Heol Las ac oddi yno yn ôl i High Street, i fyny Bell Street i Regent Street a wedyn ar hyd rhan o Penbont Road, yn ôl i'r Square ac wedyn i fyny llethrau Back Lane i eglwys y plwyf ac, yn olaf, yn ôl i lawr The Bank i'r Square. Efallai y bydd hyn yn berthnasol i brofiad llawer o ymwelwyr â'r dref a allai gyrraedd o'r Ffordd Osgoi.

- Mae i ffordd liniaru'r A479 gymeriad cymysg, gyda ffyrdd cerbydau llydan, troadau graddol a grwpiau o adeiladau ar yr ochr orllewinol ger tafarn y Castle Inn a oedd yn gysylltiedig â'r dramffordd a mannau agored mawr i'r dwyrain, ar hyd llinell yr hen reilffordd. Mae adeiladau'r hen orsaf a hen adeiladau ger tafarn y Castle Inn yn amlwg iawn, wedi'u lleoli ar dir uwchben y ffordd, ac mae grŵp o Ffynidwydd yn y pen gogleddol yn dirnod arall. Mae'r coed ar hyd ochr ddwyreiniol y ffordd ar ôl adeiladau'r hen orsaf yn amlwg ac, wrth iddynt aeddfedu, byddant yn datblygu'n nodwedd gref. Mae'r adeilad ym mhen pellaf y ffordd liniaru, sydd bellach yn gartref i'r clwb rygbi ond a arferai fod yn storfa rawn a oedd yn gysylltiedig â'r Dramffordd ac, yn ddiweddarach, y rheilffordd, yn nodwedd gref.


- Wrth fynd i mewn i **Bronllys Road** ceir golygfa o'r afon, canol y dref (a nodir gan adeiladwaith swmpus Tower House a phroffil hen adeilad Banc y Natwest sydd ynghlwm wrtho) a thŵr eglwys y plwyf uwchben ar esgair fach ond amlwg. Ceir coridor a ddiffinnir gan dai sy'n dyddio o'r 19eg ganrif ar y naill ochr a'r llall i'r fynedfa ac mae'r ffordd sy'n troi yn cynnig golygfa o adeiladwaith swmpus y Great House Barn, sy'n fwy amlwg oherwydd ei liw a'i fanylion. Mae Great House yn bargodi gyda'i dalcen uchel dros y ffordd. Gyferbyn ceir golygfa dda o'r mannau gwyrdd ger yr afon, gyda man cyhoeddus palmantog ger y Gofeb Ryfel, sydd â therasau o dai wedi'u rendro a thai cerrig y tu ôl iddo ar y lan bellaf.




- Mae Bronllys Road yn troi ac yn mynd yn lletach gan arwain i fan ar siâp sy'n culhau, sef **Y Sgwâr.** I'r chwith, mae blaenau siopau yn troi mewn rhes ddi-dor i ffurfio ochr ogleddol y man ac i'r dde mae hen adeilad Banc Natwest yn codi ar ffurf grisiau mewn sawl uned (gan gynnwys rhan hŷn â thalcenni grisiau brain a simneiau uchel) at adeiladwaith swmpus uwch Tower House. Terfyn yr olygfa ar draws y Sgwâr yw gwedd flaen Neuadd y Dref ac arni glochdwr. Diffinnir ochr ddwyreiniol y man gan waliau terfyn o gerrig sy'n wynebu blwch post a blwch ffôn o fath K6 ac adeilwaith trawiadol Tower House, a saif ar lethr serth uwchben llinell y ffordd (gweler y map uchod).

- Gan droi i'r dde (gorllewin), mae'r bont yn cynnig golygfa dda arall dros yr afon tua'r gogledd, gyda Bridge House a Glanant yn ffurfio grŵp deniadol wrth ymyl y dŵr. Mae **Swan Path** yn lôn gul i gerddwyr rhwng Bridge House a'r afon, sy'n creu llwybr tuag at bont droed yn ôl dros Bronllys Road. Mae gan **High Street** fynedfa arbennig o ddeniadol, a nodir gan dafarn y Bridge End i'r de, golygfa tua'r de i lawr **Bell Street** (sydd â phersbectif cryf a grëir gan ffryntiadau adeiladau di-dor), a fywiogir gan arwydd paentiedig a adferwyd ar wal ochr y Dafarn. Mae sawl blaen siop ac arnynt lawer o fanylion, yn Bell Street a High Street. Ceir y blaenau siopau o'r ansawdd gorau yn 5 Bell Street ac 1 Bell Street. Yn y pellter mae tirnod gwirioneddol ar ffurf presenoldeb pensaernïol bywiog The Strand, gyda'i gornel crwn a'i fanylion cyfoethog.

- Yn ôl i High Street, mae'r llinell adeiladu ar yr ochr ogleddol yn camu ymlaen gan achosi i'r stryd gulhau'n sydyn. Ategir maint a manylion Ashburnham House, sydd i'w gweld yn glir iawn oherwydd culni'r stryd, gan sawl ffryntiad ardderchog gyda blaenau siopau da ar draws y stryd ac wrth ei ymyl, ar yr ochr ddeheuol. Mae'r enghreifftiau gorau i'w gweld yn Phoenix House, Cross House, 1 Bell Street a Bruton House.





- Mae rhan ganolog High Street yn goridor pendant, a ddiffinnir gan derasau di-dor ar y ddwy ochr. Nodir y fynedfa i **Heol Las**, i'r de, gan deras byr ac mae'r lôn wedyn yn fforchio'n ddwy, gyda'r llwybr deheuol yn codi ac yn troi, a cheir gwrychoedd a chefnau bythynnod hŷn tuag at y gyffordd sydyn â **Regent Street**. Mae'r fforch orllewinol yn mynd yn fwy gwledig, gydag Eglwys Ddiwygiedig Unedig Bethania i'w gweld i fyny llethr. Nodwedd arbennig o ddiddorol ar y llwybr deheuol yw ffasâd styco syml Eglwys y Bedyddwyr, a leolir mewn mynwent goediog, gyda rhai cerrig beddi da sy'n dyddio o'r 19eg ganrif a golygfeydd ar draws y dyffryn tuag at eglwys y plwyf ar ei hesgair. Mae i **Penbont Road** gymeriad llinellol tebyg, gyda llinell ffordd sy'n newid drwy'r amser, llinell hirgul o dai teras a thai ar wahân sy'n rhedeg fwy neu lai'n gyfochrog â'r briffordd ac argloddiau lled-wledig deniadol, gwrychoedd a golygfeydd o'r Mynyddoedd Du. Wrth y bont dros yr afon ceir dau newid yn aliniad y ffordd, sy'n arwain at ryngweithio lleoliadol cynnil rhwng tai cyfagos. Mae lôn wedi'i phlannu â gwrychoedd, ar lan yr afon, yn rhedeg yn ôl i Regent Street.





- Rhan ganolog High Street
- Golygfa i lawr Heol Las
- Golygfa i lawr y fforch orllewinol
- Penbont Road
- Lôn wedi'i phlannu â gwrychoedd sy'n cysylltu Penbont Road â Regent Street
- Eglwys Ddiwygiedig Unedig Bethania
- Cyffordd â Regent Street

- Mae tro bach yn High Street ac mae ffasâd hir, ar wahân yr Old Radnor Arms i'w weld ar yr ochr ogleddol. Mae'r stryd yn tueddu i fynd yn fwy llac o ran ansawdd a dwysedd oherwydd grŵp o dai ar wahân sy'n dyddio o'r cyfnod cyn y Rhyfel ar yr ochr ddeheuol ond mae ganddi nodwedd derfyn hardd ar ffurf New House, gyda'i hen bwmp petrol sydd wedi goroesi yn y blaen a siediau ac ysguboriau fferm tuag at y gylchfan newydd. I'r gogledd ceir adeilad stablau'r Old Radnor Arms, sydd wedi'i addasu, gardd ddymunol a mannau ehangach maes parcio cyhoeddus, lle mae rhai coed wedi'u plannu er mwyn rhoi cysgod ac amwynder iddo.

- Yn y pen hwn o High Street ceir man agored gyferbyn â New House ac mae hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at y fynedfa i Dalgarth o'r ffordd i Drefeca a Chrughywel.





- Dengys y daith yn ôl i lawr High Street y gyfres o derasau di-dor, tirnod Ashburnham House, camu'n ôl y llinell adeiladu a'r man cymharol ehangach o flaen tafarn y Bridge End tuag at yn ôl. Mae golygfa wedi'i fframio dda o'r Sgwâr, gyda Tower House i'r chwith a gwedd ochr a gwedd flaen Neuadd y Dref i'r dde.




- Wrth ddringo i fyny llethr fer ac o amgylch tro ym mhen deheuol **Hay Road**, ceir golygfa ar hyd yr olaf o derasau sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif ac ambell dŷ ar wahân mwy crand. Gan droi'n sydyn ger yr hen siop tuag at dafarn yr Olde Mason's Arms, heibio i flaengwrt â seddi, mae'n rhaid dringo llethr i fyny **Back Lane** tuag at dŵr amlwg eglwys y plwyf. Mae'r cymeriad yn fwy gwledig, sy'n awgrymu pentref hŷn, gyda ffermdai, ysguboriau, siediau a waliau cerrig. Mae ffasâd cain yr Eglwys Bresbyteraidd a'i waliau terfyn o gerrig a'i strwythur dal lamp o waith haearn uwchben yn cyferbynnu'n fawr â symlrwydd brodorol llawer

o'r adeiladau cyfagos. Ceir cae mawr a phwysig ar y dde (y de), yr ysgol fodern a'r hen ysgol Gothig Fictoraidd i'r chwith a wedyn fforch yn y lôn, a nodir gan adeilad deniadol Church Villa. Yn syth ymlaen mae adeiladwaith swmpus tŵr yr eglwys, gyda chlytwaith o dywodfeini o wahanol liwiau a maint.


© Brecon Beacons National Park Authority
Plas y Ffynnon, Cambrian Way
Brecon, Powys, LD3 7HP
© Crown Copyright. All rights reserved
Brecon Beacons National Park Authority
100019322 2010

Golygfa ar hyd Back Lane


Olde Mason's Arms

Adeiladau ysgol Gothig Fictoraidd

Church Villa

- Mae **School Street** yn rhedeg ar hyd yr esgair i'r gogledd, gydag Ysgoldy Fictoraidd â manylion hyfryd ar yr ochr orllewinol. Wrth ddychwelyd tua'r de, mae'r tŵr unwaith eto yn ymwthio allan at ymyl y ffordd ac mae waliau cerrig y fynwent yn troi'n geugrwm hyd at y gyffordd â **Heol yr Eglwys** a **The Bank** lle y ceir man trionglog bach a ddiffinnir gan waliau ac adeilad dymunol Rosendaal a rhes Brynglwys. Mae'r fynwent yn fawr ac yn cynnwys amrywiaeth ddiddorol o feddau clasurol a gothig sy'n dyddio o'r 19eg ganrif. Fe'i lleolir uwchben rhes arbennig o ddymunol o dai sy'n dyddio o ddechrau'r 19eg ganrif ar ei ochr ddeheuol, o Church House i Crescent House a Cottage Mae Heol yr Eglwys

wedyn yn rhedeg tua'r dwyrain i gefn gwlad agored, gyda golygfeydd dyrchafedig da, a llwybr i lawr i groesfan dros yr afon.




School Street i'r gogledd

Church Street i'r dwyrain

Church House


Crescent Cottage

Cyffordd â Heol yr Eglwys a'r Bank

Rosendaal a rhes Brynglwys

Eglwys Santes Gwendolen a'i thŵr

- Mae'n bosibl dychwelyd i'r Sgwâr ar hyd **The Bank**, sydd hefyd yn dyddio o'r cyfnod cynddiwydiannol, gyda theras da sy'n dyddio o'r 19eg ganrif i lawr yr ochr ddeheuol a siediau fferm i'r gogledd, gyda rhai waliau terfyn sydd mewn cyflwr da a choed aeddfed. Mae Brook Lane yn troi ac yn disgyn i lawr i Bell Street a'r afon. Ceir golygfa dros gefn Neuadd y Dref a'r Sgwâr tuag at yr afon a Bronllys Road.






*O The Bank tuag at y Sgwâr a'r afon*

**7.5 Mathau o fannau yn yr ardal gadwraeth:** o'r daith gerdded uchod drwy'r dref, mae'n bosibl diffinio'r mathau canlynol o fannau:

- **Coridorau llinellol clòs**, a welir yn rhannau dwyreiniol a chanolog High Street a Bell Street, gyda ffryntiadau di-dor o adeiladau deulawr a thrillawr a adeiladwyd yn uniongyrchol ar ymyl gefn y briffordd, gydag ambell gam yn ôl o'r llinell adeiladu ac o'i blaen a mynedfeydd cul i erddi a mannau cefn; mae Swan Path yn llwybr arbennig o gul gyda blaenau'r teras yn dynn o'i amgylch, gyda mynedfa i gerddwyr i High Street;
- **Coridorau wedi'u diffinio'n fras**, a welir yn Bronllys Road, Hay Road a Penbont Road a Regent Street, lle y ceir amrywiaeth ehangach o fathau o dai a chynlluniau, gyda therasau, tai pâr a thai ar wahân ac ambell ardd flaen ac iard wasanaethau yn torri ac yn llacio natur drefol y coridorau mwy pendant; mae mannau gwyrdd a gwrychoedd gwledig hefyd yn creu'r argraff o adeiladau sydd wedi'u gosod yn y dirwedd yn hytrach na'i dominyddu; mae New Street a Cottage Lane, i'r dwyrain o Bronllys Road, hefyd yn cynnwys y cymysgedd hwn o fathau o adeiladau, gyda lle yn mynd yn brinnach o amgylch sawl adeilad modern megis y Llyfrgell a'r Orsaf Dân;
- mae **Lonydd gwledig** wedi'u cyfyngu i Back Lane, gyda datblygiadau sy'n wynebu cae mawr, adeiladau fferm, tai hŷn ac addoldai a waliau cerrig a chloddiau; pen dwyreiniol Church Street a The Bank, gydag adeiladau fferm, bythynnod, waliau a choed mawr; Old Lane sydd ond yn llwybr troed bellach, sy'n dringo i fyny tuag at yr eglwys.
- **Lonydd cefn**, megis Heol Las a Brook Lane sy'n gul, sy'n troi'n sydyn mewn mannau ac sy'n cysylltu'r llwybrau rheiddiol. Gall fod olion adeiladau hŷn a gwrychoedd gwledig ymysg garejys a datblygiadau mewnlenwi preswyl modern gwasgaredig;
- **Mannau anffurfiol mawr**, yn enwedig y Sgwâr, a grëwyd drwy wneud y ffyrdd dynesu i ardal drionglog, fwy neu lai, yn lletach, sydd wedi'u diffinio'n dda gan adeiladau a waliau ac sy'n lleoliad priodol ar gyfer y prif adeilad cyhoeddus, sef Neuadd y Dref; mae nifer fach o leoedd parcio yn ymwneud â defnyddiau masnachol ar yr ochr ogleddol;
- **Mannau llai o faint, achlysurol**, megis yr un a grëwyd wrth gyffordd The Bank, Heol yr Eglwys a School Street; ceir enghraifft lai pwysig yn The Strand, lle mae Regent Street yn ymuno â Bell Street ar ongl fain ac yn mynd ychydig yn lletach lle maent yn cyfarfod; mae'r cae hirsgwar ar ochr ddeheuol Back Lane yn bwysig yn weledol ond tir preifat ydyw;
- mae **Glan-yr-afon** yn ased pwysig, a welir mewn glannau gwyrdd a mannau palmantog ar ochr orllewinol Bronllys Road, ger y Felin (lle y ceir sianeli creigiog a rhaeadr fach) ac ardaloedd bob hyn a hyn ar hyd Penbont Road, yn enwedig gyferbyn ag Enig Villa. Mae nifer o lwybrau yn dringo o lawr y dyffryn i ardaloedd cyfagos, i Brook Lane a The Bank ac i Bell Street.

7.6 Mae **tirnodau** yn bwysig yn yr ardal gadwraeth, gyda Great House Barn, Tower House a Banc Natwest yn gweithredu fel nodweddion mynediad pwysig o'r gogledd; Neuadd y Dref a'i chlocdwr sy'n dominyddu'r Sgwâr; Caffi'r Strand sy'n nodwedd ddeniadol wrth gyffordd Bell Street a Regent Street; a thŵr eglwys y plwyf sy'n amlwg mewn nifer o olygfeydd o bell i mewn i'r dref ac i fyny Back Lane ac ar hyd Stryd yr Eglwys a School Street.

## 8. Dadansoddiad o Nodweddion

**8.1 Patrymau Adeiladu Lleol:**

- Mae **mathau o adeiladau** yn amrywio yn ôl oedran a hanes strwythurol adeiladau. Mae **adeiladau cyhoeddus** yn cynnwys eglwys y plwyf, sy'n strwythur mawr (ar gyfer yr ardal) canoloesol ar ffurf croes; y tri chapel Anghydffurfiol, sy'n enghreifftiau diddorol o ffyrdd gwahanol o ddarparu cyfleusterau yn y 19eg ganrif, lle mae Capel y Methodistiaid yn flwch syml ag orielau mewnol a mynedfa yn y talcen, sydd oll mewn arddull glasurol syml iawn, Eglwys Ddiwygiedig Unedig Bethania sydd â chynllun syml tebyg ond mae adeilad y Presbyteriaid yn strwythur Gothig Fenisaidd mawr a chain sydd ag ysgol ac ystafelloedd cyfarfod ynghlwm wrtho. Mae Neuadd y Dref yn adeilad cyhoeddus arall a adeiladwyd at y diben yn 1887-8 fel Ystafell Ymgynnull gyda marchnad gynnyrch oddi tani. Mae'r hen Ysgol Gynradd Fictoraidd yn gasgliad nodweddiadol o ystafelloedd ysgol babanod ac ysgol uwchradd, gyda thŷ ysgol feistr gerllaw. Roedd yr orsaf reilffordd yn gyfuniad o adeiladau deulawr ac unllawr. Mae tolldy sy'n dyddio o'r 19eg ganrif yng Nghae Post hefyd, i'r de-orllewin o'r ardal gadwraeth. Mae'r Tower House yn enghraifft brin o strwythur amddiffynadwy sy'n dyddio o'r 14eg ganrif, a warchodai'r bont ac a ddefnyddiwyd yn ddiweddarach fel carchar. Mae **tai** yn amrywio'n fawr o ran y math o dai a'u maint; gyda thŷ neuadd nodedig sy'n dyddio o ddiwedd y cyfnod canoloesol sydd wedi'i ymgorffori yn yr Old Radnor Arms a thŷ hir â dau fae a thramwyfa groes sy'n dyddio o'r 16eg ganrif a'r 17eg ganrif yn The Elms. Ceir tri thŷ bonedd sylweddol sy'n dyddio o'r 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif yn Ashburnham House, Upper Enig House a Great House Farm a nifer o dai mwy o faint sy'n dyddio o'r cyfnod rhwng dechrau a chanol y 19eg ganrif sydd wedi'u gosod mewn rhesi (yn hytrach na therasau a gynlluniwyd) ger eglwys y plwyf, yn Heol yr Eglwys a School Street. Mae gan deras byr ar The Bank fanylion clasurol diweddar ond, yn ddiweddarach yn y 19eg ganrif, mae'r terasau wedi'u cynllunio, gydag unedau union debyg yn cael eu hailadrodd, fel y gwelir ar The Strand; rhwng Hay Road a Bronllys Road; ar Hay Road a High Street. Mae nifer o dai ar wahân a thai pâr mwy o faint sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif, ar Hay Road, Bronllys Road a Penbont Road, ym mhen dwyreiniol Heol yr Eglwys a Regent Street.



***Great House Farm***

- Mae **adeiladau amaethyddol a diwydiannol** hefyd yn bwysig, yn enwedig The Great House Barn a hen stabl yr Old Radmor Arms (y mae'r ddau wedi'u haddasu i'w defnyddio at ddibenion busnes), ysguboriau a siediau fferm ar Back Street a The Bank, a'r Felin.

- Mae **cynlluniau adeiladau** yn amrywio yn ôl oedran, newidiadau strwythurol a swyddogaethau. Lleolir y rhan fwyaf o adeiladau ar ymyl y ffordd neu y tu ôl i fannau blaen bach, ac eithrio eglwys y plwyf, a leolir mewn mynwent fawr, y tri chapel yn eu mynwentydd eu hunain ac ambell dŷ hŷn sydd wedi'u gosod ar ongl sgwâr i linell y ffordd. Mae gan eglwys y plwyf dŵr gorllewinol, corff ac ystlys ddeheuol, cyfochrog, mawr a chapel dwyreiniol, portsh, ale groes ogleddol a changell. Ymddengys fod pob un o'r tri chapel yn giwb syml â mynedfeydd yn y talcen neu ar yr ochr ac orielau mewnol, gydag adeiladau atodol ar ongl sgwâr iddynt neu yn yr un rhes â hwy. Mae Neuadd y Dref yn adeilad deulawr, gyda neuadd fawr ar y llawr cyntaf ac, yn wreiddiol, farchnad ar yr islawr. Mae gan sawl tŷ sy'n dyddio o ddiwedd y cyfnod canoloesol a'r 17eg ganrif gynlluniau diddorol ac mae gan yr Old Radnor Arms dair ystafell yn yr un rhes â thramwyfa groes y tu ôl i gorn simnai blaen ac ysgubor sydd ynghlwm wrtho. Mae Tower House yn cynnwys tri llawr a seleri ac, yn wreiddiol, roedd yn strwythur amddiffynadwy â mur canllaw hygyrch. Fel arfer mae gan y tai bonedd mwy o faint gynlluniau cymesur, gyda mynedfeydd canolog a dau neu dri llawr. Nodweddir tai llai o faint gan dri bae ac fel arfer mae ganddynt fynedfa ganolog. Maent yn tueddu i fod yn adeiladau deulawr ond mae sawl enghraifft o loriau uchaf sydd wedi'u hanner gosod yn y to, gyda ffenestri yn rhannol yn y llawr uchaf ac yn rhannol yn bargodi i dalcenigau bach. Mae estyniadau cefn neu ochr yn aml ar ffurf strwythurau croes. Mae gan derasau diweddarach sy'n dyddio o'r

19eg ganrif gynlluniau union debyg, sy'n dilyn yr un llinell. Mae'r Great House Barn yn strwythur deulawr, siâp L, eithriadol ac, yn wreiddiol, roedd ganddo adain storio a beudy cysylltiedig a darpariaeth ar gyfer dros 240 o flychau nythu colomennod yn y talcen. Mae'r Felin yn dyddio o'r 19eg ganrif ag olwyn ddŵr dros y rhod ar y naill ben ac mae gan Glanant, ger yr afon, seleri storio ar y llawr gwaelod.




***Great House Barn***

- Mae **deunyddiau adeiladu** yn adlewyrchu'r rhai sydd ar gael yn yr ardal gyfagos ac, yn ddiweddarach yn y 19eg ganrif a'r 20fed ganrif, y rhai a gludid i Dalgarth ar y dramffordd, y rheilffordd a'r ffordd. Mae gan eglwys y plwyf amrywiol gyfuniadau o slabiau llwyd, coch a brown o Hen Dywodfaen Coch, dibatrwm neu wedi'u gosod yn fras i greu patrymau, gyda'r waliau yn cael eu hamddiffyn gan haenau o wyngalch tan y 19eg ganrif. Mae addurniadau ar gyfer ffenestri a drysau wedi'u gwneud o dywodfaen melyn neu liw hufen mwy hydrin ac wrth wneud gwaith adfer ar yr eglwys yn Oes Fictoria defnyddiwyd tywodfaen pinc neu felynwyrdd, o Swydd Henffordd o bosibl. Mae'r rhan fwyaf o'r strwythurau eraill sy'n dyddio o'r cyfnod canoloesol, dechrau'r 17eg ganrif a'r 18fed ganrif yn dangos y defnydd o dywodfeini lleol, fel arfer o gerrig llanw gwahanol neu wedi'u gosod yn fras i greu patrymau, gyda chonglfeini a phennau ffenestri a drysau wedi'u naddu'n fwy gofalus. Weithiau, mae lliwiau cyferbyniol wedi'u defnyddio'n fwriadol, o amgylch ffenestri a drysau, fel yn yr hen orsaf reilffordd. Ceir sawl enghraifft o gerrig wedi'u naddu'n ofalus ag wyneb o graig sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif ac sydd wedi'u gosod yn ofalus i greu patrymau, ar ochr orllewinol Bell Street, ar Westy'r Tower, ar Ysgoldy ac ar wedd flaen yr Eglwys Bresbyteraidd. Mae defnydd helaeth wedi'i wneud o rendr i amddiffyn cerrig llanw a oedd yn agored i hindreuliad. Yn wreiddiol defnyddiwyd rendr calch, wedyn plastr ar ddechrau'r 19eg ganrif a wedyn sment (llyfn, plastr garw a Thyrolaidd) yn yr 20fed ganrif. Mae'n bosibl bod gan dai sy'n dyddio o'r 19eg ganrif gonglfeini

wedi'u rendro a cheir pilastrau bargodol ar Crescent House, yn Heol yr Eglwys. Defnyddiwyd brics ar ddechrau'r 19eg ganrif, fel y gwelir yn Great House Barn (ar odre o gerrig llanw). Yn y 19eg ganrif, mae'n bosibl bod tywodfaen wedi'i ddefnyddio ar y cyd ag addurniadau o frics – conglfeini a phennau drysau a ffenestri. Mae'n bosibl bod rhai o'r brics wedi'u gwneud o gerrig llaid a chleiau lleol. Gwelir terasau o dai sydd wedi'u hadeiladu'n gyfan gwbl o frics yn Swan Path ac ar Hay Road ac, o bryd i'w gilydd, crëir effeithiau aml-liwiog gan gyfuniad o frics o sawl lliw, sy'n amlwg iawn ar gornel Strand Café a'r tŷ sydd ynghlwm wrtho ac ar Hen Swyddfa'r Post ar gornel High Street a Bell Street. Mae sawl enghraifft o'r defnydd o haearn rhychog ar gyfer waliau a thoeon, gan gynnwys Hazeldene ar Hay Road a chefn neuadd fawr wrth gyffordd New Street a Hay Road.



***Tywodfaen o wahanol liwiau a manylion ar Eglwys y Plwyf***

- Mae **ffenestri a drysau** yn fanylion pensaernïol pwysig, gyda ffenestri lansed syml ar Tower House, ffenestri dolennog ar adeiladau amaethyddol ac ambell ffenestr gasment ar fythynnod bach a llawr uchaf un neu ddau dŷ mwy o faint y mae ganddynt, neu yr oedd ganddynt, ffenestri codi ar y prif loriau. Ffenestri codi pren yw'r math mwyaf cyffredin o ffenestr, gydag enghreifftiau amlgwarelog sy'n

dyddio o'r 18fed ganrif neu ddechrau'r 19eg ganrif, sydd â 3/6, 6/6 neu 8/8 o gwarelau. Mae'r 'Brecon Hopper', lle mae cwarelau uchaf ffenestr godi yn ffenestri casment â cholynnau ar eu hochr, yn nodwedd leol arbennig. Mae gan y rhan fwyaf o'r tai sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif ffenestri codi â phedwar cwarel (2/2), yn aml gyda chyrn atgyfnerthu ar y bar canol a cheir amrywiadau mewm mathau gwydrog ymylol ('marginally glazed') ac unedau Edwardaidd a ffenestri uchaf amlgwarelog a rhannau isaf cyferbyniol sydd â dau gwarel. Cyfeiriwyd eisoes at y ffenestri codi sydd wedi'u gosod yn rhannol mewn talcenigau. Gwelir ffenestri bae ar ogwydd ar lawr gwaelod tai ac mae ambell ffenestr oriel ar ogwydd neu hirsgwar ar loriau uchaf. Mae capanau yn aml wedi'u gwneud o un bloc cerrig mawr neu maent wedi'u gwneud o bren neu frics, sy'n llai cyffredin. Fel arfer mae ffenestri wedi'u gosod yn syml yn y wal ond ceir amgylchynau uchel ac wedi'u mowldio yn Merlin House ar Heol yr Eglwys a Black Mountain Interiors ar High Street a chonglfeini hir a byr ar ochrau ffenestri'r Siop Gydweithredol yn y Sgwâr. Mae gan yr Eglwys Bresbyteraidd rai manylion Gothig Fenisaidd llawn cymeriad, gyda ffenestri lansed mawr â rhwyllwaith diaddurn a ffenestr gron. Mae gan yr hen Ysgol gerllaw ffenestri lansed â phennau pigfain. Mae gan Gapel y Methodistiaid ffenestri pengrwn â bariau gwydro rheiddiol syml iawn ac mae gan Eglwys Ddiwygiedig Unedig Bethania ffenestri lansed â rhwyllwaith Y. Mae ambell enghraifft o ddrysau wedi'u gwneud o estyll ond mae gan y rhan fwyaf o'r drysau gwreiddiol sydd wedi goroesi chwech neu bedwar panel (mae'r olaf yn awgrymu bod y drws yn dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif). Mae gan lawer o'r drysau ffenestri linter hirsgwar plaen. Mae portshys yn anghyffredin. Mae enghreifftiau o bortshys talcennog neu rai â tho gwastad ond mae portsh arbennig o dda sydd wedi goroesi'n gyflawn, sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif, a chanddo ymylon bondo ac ochrau rhwyllog yn Hay Road. Mae canopïau yn amrywio o enghreifftiau pren gwastad a gynhelir ar fracedau wedi'u siapio, a cheir canopi ysgubedig yn Cresent House a rhai talcennog, a gynhelir ar fachau fel arfer. **(gweler y lluniau yn 'canllawiau lleol a chynigion rheoli' am fanylion)**

- Mae **blaenau siopau** yn ased penodol i'r dref, gyda nifer o enghreifftiau pren cyflawn sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif yn High Street, Bell Street, Y Sgwâr, a phen deheuol Bronllys Road. Fe'n nodweddir gan baneli wyneb wedi'u mowldio, darnau ochr wedi'u bracedu neu bilastrog, drysau canolog neu ochr mewnosodedig a myliynau a chroeslathau pren tenau, yn aml gyda phennau ar gambr neu fwaog. Fel arfer mae codwyr stondin wedi'u gwneud o gerrig neu frics. Mae manylion deniadol megis trothwyon teils gwydrog, addurniadau cromlinellol Art Nouveau Strand Café, bracedau ag acanthws, gwyddfid a phennau merched wedi'u cerfio arnynt a phaneli hirsgwar cilfachog a losennau yn y pilastrau terfyn.

- Yn draddodiadol roedd **toeon** wedi'u gwneud o slabiau tywodfaen graddedig neu deils (yr unig enghraifft yw'r to newydd sydd i'w weld ar Felin Talgarth) ond yn y 19eg ganrif cyflwynwyd llechi o Ogledd Cymru a theils clai, y mae llawer ohonynt wedi'u disodli gan deils concrid. Mae'r rhan fwyaf o doeon yn doeon 'cwmpawd' dau oleddf gyda thalcenni sy'n cael eu hamddiffyn gan ymylon bondo pren. Mae'n bosibl bod toeon sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif wedi'u haddurno â theils crib wedi'u proffilio'n gain. Mae ffenestri dormer yn brin; y math mwyaf cyffredin yw'r hanner dormer wedi'i osod mewn talcennig, mae gan Westy'r Tower dopwaith o haearn bwrw. Mae cyrn simnai wedi'u gwneud o gerrig neu

frics wedi'u rendro, gyda photiau clai syml. Mae ‘Champion’ dwbl ar Hay Road, a gynlluniwyd i sicrhau bod twll simnai yn tynnu mwy o aer.

- Mae **ffiniau** yn bwysig i amgáu a diffinio mannau a pherchenogaeth. Mae gan y dref lawer o enghreifftiau da o waliau o rwbel tywodfaen, sydd â chorneli a darnau terfyn a ddewiswyd yn ofalus fel arfer. Ceir sawl enghraifft o gerrig naturiol mawr sydd wedi'u hymgorffori mewn wal, yn enwedig ar ochr ddeheuol The Bank. Ceir meini copa gwastad, a chanddynt wyneb sment ar gambr neu feini copa wedi'u gorffen ag estyll fertigol sydd o'r un hyd neu mewn arddull ‘ceiliog ac iâr’ hir a byr, sy'n wledd i'r llygad. Mae gwrychoedd yn weledol bwysig mewn rhannau o Heol Las, Penbont Road a Back Lane;



***Waliau o gerrig patrymog bras a waliau o gerrig nadd â meini copa gwastad***


- Mae **arwynebau** yn cynnwys darnau o slabiau tywodfaen (Pennant?) ac ymylfeini, ar Bell Street a rhannau o'r Sgwâr, High Street a rhan isaf Back Lane, ac ardaloedd o setiau cerrig, yn enwedig ar gornel Back Lane a Hay ger yr Old Mason’s Arms ac mewn sawl trothwy i mewn i iardiau fferm neu iardiau cefn, megis y fynedfa ar ochr Gwesty'r Bell;

- Mae **manylion eraill** yn ychwanegu cryn dipyn at gymeriad y dref, gyda chlocdwr a chromen bigfain Neuadd y Dref, rheiliau terfyn a gatiau da o haearn gyr a haearn bwrw sy'n dyddio o'r 19eg ganrif (mae'r gatiau a'r strwythur dal lamp uwchben yn yr Eglwys Bresbyteraidd yn arbennig o ddymunol), y mathau mwyaf cyffredin o reiliau yw'r pennau gwaywffyn neu'r pigau syml, sydd wedi'u gosod fel arfer ar waliau sliperi isel, gwelir rheiliau cylch ac arfbeisiau addurniadol Fictoraidd isel ar waliau hefyd (ond dylid nodi'r paneli bwrw uwch a'r gatiau yn Church House, yn ogystal â'r gwydr plwm sy'n dyddio o ddechrau'r 20fed ganrif yn y portsh); yr arwydd paentiedig a adferwyd wrth gyffordd High Street a Bell Street; enghreifftiau eraill o ysgrifen arwyddion yn High Street; ac olion pwmp

petrol sy'n dyddio o ddechrau'r 20fed ganrif (a adferwyd yn ddiweddar) ger New House ar High Street. Mae gan Glendale, i'r de o Vicarage Barn, flwch ffôn addurniadol o fath K6 a noddweddion eraill megis signal reilffordd ac arwyddion o haearn bwrw yn ei ardd. Mae gan eglwys y plwyf a'r tri chapel rai enghreifftiau da iawn o gofebau o dywodfaen, gyda ffurfiau ar lythrennau sy'n dyddio o'r 18fed ganrif a'r 19eg ganrif a cheir manylion clasurol a Gothig ar rai o'r beddau mwy o faint, gyda rheiliau o haearn bwrw ym mynwent y plwyf. Mae dau folard o haearn bwrw ym mhen isaf Back Lane ac mae'r pyst ffensys haearn paentiedig gwyrdd, sydd ag ochrau rhychiog, ger yr afon, yn haeddu cael eu diogelu.




***Llythrennau ar gerrig beddi ym mynwent y plwyf***





***Manylion adeiladau***

**8.2** Mae 22 o Adeiladau Rhestredig yn yr ardal gadwraeth, y mae dau ohonynt, sef eglwys y plwyf a Tower House, yn rhestredig Gradd II*. Yr **Adeiladau Rhestredig Allweddol** yw Eglwys y Plwyf Santes Gwendolen (gwerth archaeolegol a phensaernïol a lleoliad amlwg); Tower House (nodweddion canoloesol, enghraifft o fath prin iawn o adeilad ac adeilad ‘porth’ amlwg); Great House a Great House Barn (y mae'r naill yn enghraifft dda o dŷ bonedd sy'n dyddio o'r 18fed ganrif a'r llall yn adeilad amaethyddol mawr sy'n dyddio o'r cyfnod ar ôl i'r tiroedd comin gael eu hamgáu); yr Old Radnor Arms (tystiolaeth fewnol bwysig o dŷ neuadd canoloesol); Neuadd y Dref (adeilad cyhoeddus hardd sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif, sy'n nodwedd dra amlwg ym mhrif fan cyhoeddus y dref); Ashburnham House (tŷ tref mawr sy'n dyddio o ddechrau'r 19eg ganrif sydd mewn lleoliad pwysig ac â gwerth grŵp) a Melin Talgarth (darn o archaeoleg ddiwydiannol sydd wedi goroesi o ganol y 19eg ganrif, sydd ag olion olwyn anghyffredin â gwerth grŵp).

**8.3** Mae **Adeiladau Lleol Pwysig** nad ydynt wedi'u rhestru ar hyn o bryd yn ychwanegu cryn dipyn at gymeriad ac ansawdd y dref. Yn eu plith mae:

- Capel y Methodistiaid, Regent Street, ffasâd wedi'i rendro syml gyda drysau dwbl, tair ffenestr bengrwn syml a phlac ac arno'r dyddiad 1837, mynwent ddeniadol a waliau terfyn;
- Eglwys Ddiwygiedig Unedig Bethania, Heol Las, adeilad wedi'i rendro syml sy'n dyddio o ddechrau'r 19eg ganrif gyda ffenestri lansed Gothig, a mynwent uchel gyda chofebau a wal gynhaliol o gerrig;

- Eglwys Bresbyteraidd Bethlehem, Back Lane, ffasâd cymesur Gothig Fenisaidd trawiadol sy'n dyddio o 1850, gyda cherrig llanw, addurniadau o gerrig pinc, manylion brics, ffenestr gron rwyllog â phlât canolog, Ysgol Sul neu neuadd wedi'i rendro sydd wedi'i gosod yn ôl a rhai waliau terfyn o ansawdd da ac arnynt feini copa gyda gatiau a rheiliau haearn addurniadol;




- Banc y Natwest, Y Sgwâr, adeilad cerrig unigryw iawn a adeiladwyd tua 1920 mewn fersiwn syml o arddull y Diwygiad Tuduraidd, sydd ag un llawr, grisiau brain amlwg yn y talcen, simneiau mawr, ffenestr fae ar ogwydd, ffenestri myliynog a chroeslathog a dwy gilfach wag ryfedd â chapanau gwarrog, y mae iddo werth grŵp ar y cyd â Tower House ac adeilad 'porth' trawiadol yn y Sgwâr (rhandy modern y mae ei werth yn llai amlwg);
- Yr Hen Lys Ynadon, Bell Street/Penbont Road, cerrig wedi'u gosod yn ofalus i greu patrymau, deulawr ac unllawr, to llechi a slip yn y talcen, ffrâm drws wedi'i philastro, ffitiadau cyflawn, yn dyddio o ddechrau'r 20fed ganrif, mae'n terfynu'r olygfa i fyny Regent Street;
- Yr hen orsaf reilffordd, Bronllys Road, tair uned garreg unllawr a deulawr gyda ffenestri codi a cherrig o wahanol liwiau, sydd o ddiddordeb hanesyddol ac sydd â rhywfaint o werth pensaernïol.
- Tŷ wedi'i rendro, gwyn, mawr sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif (sydd bellach yn rhan o gartref gofal), mewn rhes, ar ochr orllewinol Afon Ennig, ar Bronllys Road, sydd â dau dalcennig, cymysgedd o ffenestri codi a ffenestri casment a portsh â tho pentis, manylion sydd wedi goroesi'n gyflawn ac sydd i'w gweld yn glir o'r fynedfa ogleddol i ganol y dref;
- Y teras brics byr ar ochr orllewinol Swan Path (Rhifau 1-4), gyda ffenestri codi a drysau panelog sydd wedi goroesi'n gyflawn;

- Hazeldene, ar Hay Road, tŷ unllawr a adeiladwyd o haearn rhychog ar ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif sy'n dal i fod yn gyflawn, gyda ffenestr fae ar ogwydd a chanopi drws syml, technoleg adeiladu anarferol;
- The Cottage, ar ochr orllewinol Hay Road, tŷ ar wahân sy'n dyddio o ganol y 19eg ganrif, wedi'i rendro, to slip, cyrn simnai yn y talcen, portsh canolog, ffenestri codi (6/6) ar y llawr cynta a drws gwydr ar y llawr gwaelod – math anarferol o dŷ yn y dref;





***The Cottage***

- Rhif 2 Heol Las, bwthyn carreg sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif, un o bâr, gyda ffenestri codi a drws cyflawn a gwaith pwyntio priodol;
- Strand Café a thŷ cysylltiedig, a adeiladwyd ar ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif gan ddefnyddio cyfuniad o frics lliw oren, rendr a theils wedi'u hongian arno, gyda thalcenni goraddurnedig, orielau, canopi cylchrannol dros brif ddrws y tŷ, blaen siop da a manylion Art Nouveau, sy'n werthfawr o safbwynt y treflun ac o ddiddordeb gweledol;
- Yr ysgubor garreg yn Nhrebowen, yn Back Lane, sied syml â drws yn y talcen, ond sy'n cyferbynnu â manylion cain yr Eglwys Bresbyteraidd;
- Church Villa, yn Back Lane, tŷ wedi'i rendro cyflawn sy'n dyddio o ganol y 19eg ganrif, o bosibl gydag adain ochr hŷn, ffenestri codi a ffenestri bae ar ogwydd, drws canolog o dan ganopi wedi'i fracedu, sy'n amlwg iawn mewn golygfeydd tuag at eglwys y plwyf;
- Yr hen Ysgol Gynradd Fictoraidd a'r hen Ysgoldy (dyna'r enw ar yr adeilad bellach) yn Back Lane. Mae gan yr adeilad cyntaf floc unllawr a deulawr ar ongl sgwâr a ffenestri lansed â phennau pigfain ac mae'r ail wedi'i adeiladu o gerrig ag wyneb o graig gyda ffenestri â chapanau gwarrog;
- Adeiladau fferm yn fferm Neuadd Felin, ysguboriau carreg deulawr ac unllawr, gyda ffenestri dolennog a thoeon tun, o amgylch iard, sydd hefyd i'w gweld o Back Lane (mae'r ffermdy o werth hanesyddol ond mae wedi'i newid);

- Hendre, The Bank, tŷ sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif a chanddo ffenestri cyflawn a chanopi drws wedi'i fracedu ac sydd wedi'i leinio â rendr llyfn i efelychu meini nadd (mae sylfaen hŷn, ddiddorol wedi'i chofnodi);
- Nythfa, Hill Croft, Maesgwyn House a Craigend, gyda hen stabl y tu cefn iddo, ar ochr ddeheuol The Bank, rhes o dai wedi'u rendro sy'n dyddio o ganol y 19eg ganrif gyda manylion megis fframiau drysau pilastrog a pedimentog a rheiliau yn y blaen, a newidiwyd (mae'r ffenestri gwreiddiol i'w gweld o hyd yn Maesgwyn House) ond mae iddo werth grŵp;
- Ty-Craig, ger grŵp rhestredig ar Heol yr Eglwys, un llawr a hanner, wedi'i rendro â phlastr garw gwyn, ffenestri casment a chanopi drws wedi'i fracedu, ac sydd â gwerth grŵp;
- Rhifau 1-4 Church Row, yn Heol yr Eglwys, teras byr o dai cerrig, y mae gan bob un ohonynt ffenestri newydd ond sydd â gwerth grŵp;
- Vicarage Barn, Heol yr Eglwys, a adeiladwyd i mewn i lethr, gyda thŷ â thair ffenestr fae a ffenestri codi sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif ac ysgubor gysylltiedg, a addaswyd, sydd â ffenestri dolennog;
- Y rhes o siopau o Savvy Café i'r Siop Gydweithredol a Bwyty Cantonaidd Talgarth ar ochr ogleddol y Sgwâr, manylion ar ffenestri a drysau sy'n dyddio o ddiwedd Oes Fictoria a dechrau'r 20fed ganrif a rhes o flaenau siopau pren da, sydd â gwerth grŵp;
- Gwesty'r Tower, ar ochr ddwyreiniol y Sgwâr, sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif, gyda blaen trillawr uchel, adain ddeulawr, talcenigau â thopwaith o haearn, cribau to, gwydr sydd wedi goroesi'n gyfan a phortsh â tho pentis, adeilad amlwg iawn sydd â rhywfaint o werth pensaernïol;
- Mill Cottage, yn union i'r de o Neuadd y Dref, blaen wedi'i rendro, ffenestri codi, drysau canolog a drysau ochr crwm ac olion blaen siop bach, cyflawn, sydd â gwerth grŵp;
- Swan House, Cross House a Bristol House, lleolir pob un o'r adeiladau hyn, sy'n dyddio o ganol y 19eg ganrif, ym mhen dwyreiniol High Street; mae ganddynt flaenau siopau pren da, maent wedi'u rendro ac mae ganddynt fanylion megis ffenestri codi a fframiau drysau pilastrog;
- Hen Swyddfa'r Post, ar gornel Bell Street a High Street, adeilad cornel trillawr ar ogwydd sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif ac sydd â phatrymau o frics lliw, blaen siop cyflawn a drws ochr pilastrog, ffitiadau diddorol gan gynnwys drws â gwydr enamlo ac wedi'i ysgythru, silffoedd a chownteri, adeilad amlwg iawn ac iddo werth grŵp;
- Hen dafarn yr Horse and Jockey ar gornel High Street a Heol Las, sy'n cael ei adnewyddu'n llwyr ar hyn o bryd, gyda ffenestri codi a gwahanol agoriadau caeedig, hanes adeiladu a allai fod yn ddiddorol;
- New House, ym mhen gorllewinol High Street, cerrig llanw a phennau ffenestri o frics, tair ffenestr fae, ffenestri codi, portsh pren, rheiliau blaen, rhandy deulawr is a chilfach gysylltiedig â drws llwytho;
- Holmfield ar Regent Street, tŷ ar wahân o flociau cerrig enfawr sy'n dyddio o ganol y 19eg ganrif, ffenestri codi (2/2);
- Rhif 7 Regent Street, tŷ sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif gyda ffenestri codi cyflawn, sydd â gwerth grŵp;
- Y Siop Pysgod a Sglodion ar ochr orllewinol Bell Street, sydd â blaen siop pren da a Greystones, y tŷ cysylltiedig sydd â blaen ag wyneb o gerrig a ffenestri codi cyflawn sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif;

- Rhifau 5, 9 ac 11 Bell Street, pob un ag olion sylweddol blaenau siopau sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif;
- Gwesty'r Bell Hotel, Bell Street, sydd wedi'i newid gryn dipyn ar y tu allan ond sydd â chorn simnai wedi'i bracedu diddorol ar y talcen gogleddol (ac, yn ôl pob sôn, nodweddion strwythuro mewnol hŷn);
- Black Lion Cottage, wrth gyffordd Regent Street a Heol Las, sy'n llai na'r adeiladau cyfagos, mae ganddo un llawr a hanner a ffenestri cament bach iawn mewn talcenigau, ffenestri codi ac estyniadau croes unllawr yn y cefn (hanes adeiladu a allai fod yn ddiddorol?);
- Yn yr un modd, Hilton House on Regent Street, graddfa fach, blaen wedi'i rendro â phlastr garw, ffenestri codi (2/2) a drws â phedwar panel;
- Castell-yr-Eos, Regent Street, tŷ ar wahân sy'n dyddio o ddechrau'r 20fed ganrif, gyda manylion rhagorol sydd wedi goroesi'n gyflawn, rendr, conglfeini uchel ac amgylchynau ffenestri, ffenestri codi â phatrwm unigryw o fariau gwydro, ffenestri bae â tho pentis a phortsh canolog;
- Enig Villa, ar Penbont Road, blaen wedi'i rendro sy'n dyddio o ganol y 19eg ganrif gyda ffenestri codi (8/8), drws canolog â phedwar panel, adain ar ongl sgwâr ac iard flaen;
- Aberenig Terrace ar Penbont Road, cymysgedd o dai cerrig a brics (blaen dwbl, un yn wynebu'r afon) a rendr sy'n dyddio o'r cyfnod rhwng canol a diwedd y 19eg ganrif, simneiau uchel, ffenestri codi heb eu newid, rhes o dai sydd wedi goroesi'n gyflawn mewn lleoliad amlwg;




***Enghreifftiau o Adeiladau sy'n Bwysig yn Lleol***

- Penbont Cottage, Penbont Road, ffenestri casment cyflawn, sy'n ffurfio grŵp da gyda'r bont fach dros yr afon;

**8.4** Ceir y **grwpiau** mwy cydlynol **o adeiladau** o amgylch y Sgwâr, gan gynnwys y siopau ar yr ochr ogleddol, Gwesty'r Tower, Neuadd y Dref, Mill Cottage i'r gorllewin, Tower House a Banc y Natwest; pen dwyreiniol High Street, o'r Bridge End Inn i'r fynedfa i Heol Las; Strand Café, y teras cyfagos, a gweddill Regent Street i'r gyffordd â Heol Las; Enig Villa, Aberenig Terrace i Upper Aberenig House ar Penbont Road; ochr ogleddol Back Lane, o'r Old Mason’s Arms i Church Villa, yr hen Ysgol ac Ysgoldy; eglwys y plwyf a waliau'r fynwent, Brynglwys, Rosendaal a'r rhes ar ochr ddeheuol y fynwent, ar Heol yr Eglwys, Crescent a Cottage.

**8.5** Mae'r **lefel o ymyrraeth neu niwed** yn fater pwysig, gydag effeithiau datblygiadau modern mewn ardaloedd cyfyngedig ac erydu manylion traddodiadol ar nifer o adeiladau anrhestredig y mae iddynt werth grŵp. Mae sawl adeilad modern mawr, gan gynnwys y Llyfrgell a'r Orsaf Dân, oddi ar Bronllys Road, sy'n cael effaith negyddol ar yr ardal gadwraeth oherwydd eu maint, y ffaith nad oes ganddynt unrhyw fanylion neu fod ganddynt fanylion amhriodol, y deunyddiau anghydnaws a ddefnyddiwyd i'w hadeiladu a'r ardaloedd mawr, moel o leoedd parcio o'u hamgylch. Mae Neuadd yr Eglwys, ar Hay Road, yn strwythur eithaf llwm a moel arall ac mae'r estyniad i Fanc y Natwest yn amharu ar brif adeilad llawn cymeriad.




***Mae adeiladau modern yn cyflwyno graddfa fwy ac amgylchoedd anneniadol***

**8.6** Mae sawl safle gwag sy'n amharu ar gydlyniant yr ardal, megis safle'r hen garej gyferbyn â'r Strand (gyda ffiniau hyll i'r Strand a Heol Las) a safle Churchfields yn union i'r gogledd o eglwys y plwyf. Mae gan y safle hwn gydsyniad cyfredol ar gyfer datblygiad preswyl a, gobeithio, dim ond problem dros dro fydd y bwlch. Ceir safle

agored ym mhen gorllewinol High Street y mae cryn nifer o geisiadau ar gyfer datblygiadau preswyl arno wedi'u gwrthod a lle mae'r coed wedi'u clirio ac mae'n dal i amharu ar y porth hwn i'r dref. Mae gan y maes parcio gerllaw rai sgipiau ailgylchu amlwg iawn a allai elwa ar gael eu hadleoli neu gynllun newydd.

**8.7** Mae tystiolaeth o adeiladau mewn cyflwr strwythuro a chosmetig gwael (gweler 8.9 isod) ac mae'r crynhoad o nifer o strwythurau sy'n wag neu nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon yn amharu ar ardaloedd, megis Bell Street. Bu'r Felin yn destun pryder ers amser maith ond mae cais llwyddiannus wedi'i wneud am swm sylweddol o arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i'w hatgyweirio a'i haddasu i'w defnyddio at amrywiaeth o ddibenion addysgol a chymunedol. Bydd Mill Cottage hefyd yn cael budd o'r prosiect hwn. Mae prosesau erydu carreg a phroblemau strwythurol yn effeithio ar rai o'r cerrig bedd a chofebau hardd sy'n dyddio o'r 18fed ganrif a'r 19eg ganrif yn eglwys y plwyf a'r capeli. Mae newidiadau i fanylion ffenestri a drysau, drwy ddarpariaethau Datblygu a Ganiateir, wedi effeithio ar lawer o dai a bythynnod sy'n dyddio o'r 19eg ganrif. Efallai fod ffenestri a drysau PVCu yn debyg iawn i batrymau traddodiadol o wydro a phaneli drysau ond gallant gyflwyno manylion, ansoddau ac adlewyrchiadau anghydnaws. Nid yw rhai ffenestri pren newydd yn adlewyrchu manylion traddodiadol ac mae'r defnydd o staen brown tywyll ar gyfer gwaith coed yn gyffredinol yn rhoi naws lem i weddau adeiladau. Mae newidiadau unigol, tameidiog wedi effeithio ar undod terasau ac mae nifer o adeiladau unigol, yn Penbont Road, Back Lane a High Street a fyddai wedi haeddu cael eu nodi fel adeiladau sy'n bwysig yn lleol ond y mae gwaith adeiladu diweddar wedi amharu arnynt. Gall fod enghreifftiau o waith datblygu nas awdurdodwyd hefyd, megis estyniadau cefn ac adeiladau atodol a ddylai fod yn destun archwiliad gorfodi.




***Problemau gyda hen safleoedd masnachol, Bell Street***

**8.8** Mae problemau eraill, megis yr annibendod gweledol a grëir gan bolion a gwifrau uwchben (o flaen eglwys y plwyf); y man llwm y tu cefn i Westy'r Bell a chyflwr gwael rhai hen adeiladau fferm, ger New House ac ar The Bank. Mae glannau Afon Ennig, ar Bronllys Road, yn eithaf llwm, gydag ambell goeden a rhai manylion iwtilitaraidd, megis siedau unllawr sy'n gysylltiedig ag eiddo gerllaw.

**8.9** **Cyflwr yr Adeiledd Adeiledig:** mae'n amlwg bod problemau gydag adeiladau hanesyddol allweddol, megis islawr Neuadd y Dref (sy'n destun astudiaeth bensaernïol fanwl), y Felin a Mill Cottage a'r eiddo masnachol yn Bell Street. Mae dau dŷ sy'n dyddio o'r 19eg ganrif yn Regent Street yr ymddengys eu bod mewn cyflwr gwael iawn ac mae gan sawl tŷ waith paent y mae angen rhoi sylw iddo (lle nad yw ffenestri PVCu newydd wedi'u rhoi yn lle'r rhai gwreiddiol). Mae cyflwr y cofebau ym mynwent eglwys y plwyf yn amrywio, ac mae gan rai o'r cofebau hŷn arwynebau wedi'u hasglodi neu mae problemau strwythurol yn gysylltiedig â hwy, sy'n golygu bod angen eu datgymalu neu eu symud mewn rhai achosion. Ymddengys fod cofebau yn yr Eglwys Bresbyteraidd wedi'u pentyrru yn erbyn wal derfyn ochr.

## 9. Diffiniad o Ddiddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth

**9.1** Mae gan Dalgarth yr asedau penodol canlynol:

- Lleoliad gwych a thirwedd amrywiol o ansawdd uchel, ar lethrau gorllewinol y Mynyddoedd Du, lle mae'r tir uwch a dyffrynnoedd endoredig i'r dwyrain o'r craidd hanesyddol a chwrs Afon Ennig o'r pwys pennaf;
- Archaeoleg cyfoethog o bosibl drwy'r cyfnod canoloesol cynnar hyd at ddatblygiadau trafnidiaeth a thechnolegol y 19eg ganrif;
- Cynllun tref sydd wedi goroesi gydag eglwys y plwyf a'r ddau fan croesi afon canoloesol yn ganolbwynt iddo;
- Treflun cymhleth a grëwyd gan effeithiau cynllun ffyrdd, topograffi, graddfa a lleoliad adeiladau a llawer o fanylion bach ond llawn cymeriad;
- 22 o Adeiladau Rhestredig, y mae dau ohonynt, sef eglwys y plwyf a Tower House, yn rhestredig Gradd II*;
- Tua 40 o adeiladau a rhesi eraill sy'n bwysig yn lleol, sydd â gwerth treflun a grŵp ac sydd â manylion gwreiddiol sydd wedi goroesi'n gyflawn, gan gynnwys y tri chapel sy'n dyddio o'r 19eg ganrif, yr hen Ysgol Gynradd a'r hen orsaf reilffordd, hen Lys Ynadon; nifer o safleoedd masnachol â blaenau siopau pren sy'n dyddio o'r 19eg ganrif; tai sy'n dyddio o'r 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif; ac adeiladau fferm;
- Sawl grŵp cydlynol o adeiladau rhestredig ac adeiladau sy'n bwysig yn lleol, yn enwedig o amgylch y Sgwâr; pen dwyreiniol High Street; ger Enig Villa ar Penbont Road; ar ochr ogleddol Back Lane ac ar hyd School Street a Heol yr Eglwys, gan gynnwys eglwys y plwyf a'r fynwent;
- Deunyddiau adeiladu lleol, o'r Hen Dywodfaen Coch a brics lleol a, hyd at ddiwedd y 19eg ganrif, rendr calch; ceir rhannau hir o furiau terfyn o gerrig llanw hefyd, a phalmentydd traddodiadol a throthwyon setiau;
- Llawer o fanylion adeiladu sy'n cyfrannu at natur unigryw'r ardal leol, fel blaenau siopau, gwaith haearn, ysgrifen arwyddion, ffenestri codi a drysau panelog, cyrn a photiau simnai a theils crib addurniadol;
- Agosrwydd adeiladau hen Ysbyty Canolbarth Cymru, sy'n gyfadail pwysig o adeileddau a adeiladwyd at y diben ar ddechrau'r 20fed ganrif a leolir mewn

tirwedd o ansawdd uchel a'r ffaith y gallent gael eu cynnwys mewn ardal gadwraeth wedi'i hehangu; gallai grŵp da o adeiladau ar hyd Bronllys Road gael eu cynnwys hefyd.

## 10. Ffin yr Ardal Gadwraeth

**10.1** Ymddengys fod y ffin bresennol yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r adeiladau rhestredig, nodweddion eraill o ddiddordeb a rhywfaint o'r dirwedd gyfagos, megis mannau gwyrdd pwysig i'r de a'r gorllewin o Heol Las, rhwng Penbont Road a Hospital Road a'r ddôl ar lan yr afon i'r de o Heol yr Eglwys. Mae'r unig enghraifft o lain yr ymddengys ei bod wedi'i rhannu i'w gweld yn Heol Las lle mae Journey's End yn cael ei rannu gan y ffin. Dylid unioni hyn naill ai drwy hepgor yr eiddo'n gyfan gwbl neu drwy gynnwys y llain gyfan.

**10.2** Mae tŷ bonedd hardd sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif ym mhen dwyreiniol Heol yr Eglwys, sef Brenton Hall, a leolir mewn gerddi wedi'u tirlunio, gyda choed mawr a phileri giât o gerrig nadd. Ymgorfforwyd estyniad dwyreiniol bach i'r ffin bresennol yn yr adolygiad diwethaf a gynhaliwyd yn 2011. Tynnodd y digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyfer yr adolygiad hwnnw sylw at atyniad gweledol a diddordeb hanesyddol adeilad presennol Clwb Rygbi Gwernyfed, ar Trefecca Road, a arferai fod yn fracty, a chynhwysyswyd yr ardal hon hefyd ynghyd ag estyniad i'r gogledd o'r ffin bresennol, ar y naill ochr a'r llall i Bronllys Road, i gynnwys adeilad rhestredig The Elms a sawl tŷ anrhestredig sy'n dyddio o'r 18fed ganrif a'r 19eg ganrif ar ochr orllewinol Bronllys Road, yn enwedig Gwesty'r Castle, New Inn a thŷ bonedd mawr sy'n dyddio o'r 18fed ganrif a'r 19eg ganrif, sef Aberennig House. Hefyd, mae hen bont tramffordd, rhan o'r hen wely traciau, olion stabl gysylltiedig a ‘thŷ tun’ deniadol – sef byngalo o haearn rhychog sy'n dyddio o ddechrau'r 20fed ganrif.



***Aberennig House, Bronllys Road***

**10.3** Fel rhan o'r adolygiad blaenorol ystyriwyd cynnwys safle hen **Ysbyty Canolbarth Cymru** mewn estyniad o'r ardal gadwraeth. Ar y safle hwn ceir ffermdy hŷn, sef Wern Fawr, i'r gogledd o Hospital Road (a enwyd yn ddiweddarach). Daeth y fferm yn fferm y plas i'r ysbyty ac mae defnyddiau eraill yn gysylltiedig â hi, yn enwedig tai neu 'filâu' staff ar hyd y ffordd fynediad ddeheuol i Dalgarth a Phwll-y-Wrach a thŷ mawr ar wahân, sef Chance Field, i'r gogledd o'r prif gyfadail. Cynlluniwyd cyfadail adeiladau'r ysbyty, bloc y brif fynedfa, y neuadd fawr, y capel ar wahân, y marwdy, tŷ'r boeler a'r golchdy a chyfleusterau trin arbenigol eraill yn wreiddiol gan *Giles, Gough and Trollope* yn 1900. Mae adeiladau'r ysbyty wedi'u gosod mewn patrwm 'glöyn byw' cymesur, gyda chyfres o bafiliynau wedi'u lleoli ar y naill ochr a'r llall i fynedfa ganolog a blociau'r neuaddau, wedi'u cysylltu gan goridorau. Mae gwahanol estyniadau ac adeiladau modern ond, ar y cyfan, mae gan y safle gymeriad cryf sy'n perthyn i ddechrau'r 20fed ganrif o hyd.



***Safle Ysbyty Canolbarth Cymru***

**10.4** Ymddengys fod Wern Fawr yn dŷ pum bae sy'n cynnwys, o bosibl, ysgubor gysylltiedig. Mae wedi'i rendro â phlastr garw ac mae'r ffenestri ar y llawr cyntaf wedi'u codi i greu ffenestri dormer rhannol. Mae adeiladau fferm y plas gerllaw mewn arddull bensaernïol unigryw iawn, gyda rwbel tywodfaen porffor-brown lleol, wedi'u gosod i greu patrymau a gydag addurniadau o frics melyn ar ffurf conglfeini a phennau ffenestri a drysau. Mae gan ffenestri a drysau bennau bwâu ar gambr. Mae adeiladau gwreiddiol yr ysbyty yn rhai deulawr ac unllawr, ac mae gan floc y brif fynedfa bresenoldeb pensaernïol gwirioneddol, gyda chynllun E, deg bae, canol dau fae bargodol â phortsh, ac arno glocdwr addurniadol a baeau ar ogwydd ar y llawr gwaelod yn y baeau allanol. Mae'r arddull yn nodweddiadol o arddull glasurol addasedig sy'n perthyn i ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif, gyda ffenestri codi, ac elfennau brodorol sy'n dyddio o'r 17eg ganrif yn y talcen canolog. Mae'r deunyddiau yn cynnwys rwbel tywodfaen patrymog, tywodfaen pinc a ddefnyddiwyd ar gyfer addurniadau a thoeon llechi.

**10.5** Ceir adeiladau unllawr atodol hefyd, a adeiladwyd gan ddefnyddio deunyddiau tebyg, gyda thoeon slip a ffenestri haearn amlgwarelog unigryw a rhosaddurnau yn ffurfio uniadau'r bariau gwydro. Mae'r marwdy hefyd yn adeilad unllawr, ond gyda ffenestri codi pren. Mae simnai ystafell y boeler yn amlwg, a chanddi doriad sgwâr sy'n meinhau a bandiau atgyfnerthu o haearn. Mae'r capel yn adeilad hirsgwar saith bae a adeiladwyd o dywodfaen a llechi mewn arddull lansed syml ac arno gromen lwfrog. Mae grŵp o adeiladau wedi'u rendro i'r dwyrain o'r prif floc, gyda ffenestri codi. Mae gan y tŷ mawr ar wahân (Chance Field) i'r gogledd-orllewin o'r capel lawer o fanylion deniadol yn arddull Celf a Chrefft/y Frenhines Anne – wedi'i rendro â phlastr garw, ffenestri codi amlgwarelog, ffenestr gasment fawr sy'n nodi'r grisiau, baeau ar ogwydd a phortsh canolog sydd â phen bwaog cylchrannol.

**10.6** Lleolir y cyfadail mewn tirwedd ddeniadol iawn, gyda choed conifferaidd a chollddail aeddfed, yn yr ardal o amgylch y capel a Chance Field, ger y fynedfa ddeheuol ac ar hyd y ddwy ffordd ddynesu. Mae cwrt tennis a chae criced, ynghyd â phafiliwn, i'r gorllewin o Chance Field.

**10.7** Nid yw adeiladau'r ysbyty wedi'u defnyddio ers diwedd y 1990au, ar wahân i rywfaint o ddefnydd masnachol sydd wedi'i wneud o ychydig o unedau i'r dwyrain o'r prif gyfadail. Mae llechi a phlwm wedi'u tynnu oddi ar yr adeiladau yn systematig, sydd wedi achosi difrod i'r hen brif neuadd. Ceisiwyd rhestru rhai o'r adeiladau yn y grŵp neu'r grŵp cyfan sawl gwaith ond ni lwyddwyd i wneud hynny hyd yma. Mae amrywiaeth o ddefnyddiau ar gyfer y safle wedi'u trafod â'r perchenogion preifat ond, ar wahân i'r defnydd masnachol cyfyngedig a'r prosiect llwyddiannus i addasu adeiladau Waun Fawr i'w defnyddio fel preswylfeydd a llety i dwristiaid, mae'n amlwg bod y prif gyfadail mewn perygl o gael ei ddifrodi ymhellach ac, o bosibl, ei golli.

**10.8** Yn ddiau, bydd realiti ariannol datblygiad defnydd cymysg, ystyriaethau o ran mynediad a gofynion y system gynllunio yn pennu tynged y safle ond mae angen diogelu'r adeiladau sydd ar ôl a sicrhau bod unrhyw waith datblygu o'r safon uchaf a'i fod yn parchu'r adeiladau hardd a'u lleoliad mewn tirwedd ddeniadol. Mae'n bosibl y dylai rhai o adeiladau gwreiddiol yr ysbyty neu bob un ohonynt gael eu rhestru, oherwydd ansawdd yr adeiladau, megis bloc y brif fynedfa a'r capel ac er mwyn cydnabod cynllun hanesyddol yr adeiladau a'r defnydd a wnaed ohonynt. Mae'r math hwn o gyfadail ysbyty meddwl/arwahanu yn ddatblygiad nodweddiadol iawn sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif a'r 20fed ganrif, a ddarparai amgylchedd gweddol drugarog a chyfleusterau ar gyfer chwaraeon ac adsefydlu. Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, mae llawer o safleoedd tebyg wedi cael eu dymchwel neu eu newid y tu hwnt i adnabyddiaeth gan fod y GIG wedi gwaredu llawer o'i ystad. Er ei bod yn bosibl y caiff y posibilrwydd o restru'r safle ei ailystyried, mae'n ddymunol rhoi lefel uwch o ddiogelwch i'r adeiladau a'r dirwedd a llywio penderfyniadau cynllunio yn y dyfodol.

**10.9** Ymestynnodd yr adolygiad blaenorol ffin Ardal Gadwraeth Talgarth i gynnwys ymyl y cae criced a hyd at y ffordd fynediad ddeheuol, Hospital Road, ar hyd y ffin cae bwysig i'r de o New Hospital Villas, ac oddi yno, gan ddilyn ffiniau caeau i'r de ac i'r dwyrain o'r prif grŵp o adeiladau'r ysbyty. Wedyn dylai'r ffin ymestyn tua'r gogledd i'r ffordd fynediad ogleddol a chynnwys Wern Fawr a'i hen adeiladau. Wedyn dylai ddychwelyd tua'r gorllewin ar hyd y ffordd fynediad ogleddol, gan gynnwys y coetir ger y tro sydyn i'r ardal a ddynodwyd yn 1995.

**10.10** Yn ystod yr adolygiad presennol cyflwynwyd sylw ynghylch y ffin yn Wern Fawr. Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr eiddo a elwir yn The Gardens yn fyngalo sy'n dyddio o ganol yr 20fed ganrif ac nad oedd yn cyfrannu at gymeriad arbennig yr ardal. Ar ôl ystyried y sylw hwn ystyrir ei bod yn briodol hepgor yr ardal fach hon o'r ardal gadwraeth.

## 11. Crynodeb o'r Materion

**11.1** Mae Talgarth wrth groesffordd economaidd ac amgylcheddol gyda phroblemau amlwg adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio neu nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon, sy'n ymwneud â'r angen i atgyfnerthu ac arallgyfeirio'r economi leol, ar y naill

law, a'r gefnogaeth gref gan y gymuned leol i weithgareddau a defnyddiau sy'n seiliedig ar ddiwylliant a threftadaeth ar y llaw arall. Mae blaenoriaethau'r Grŵp Adfywio i wella canol y dref, nodi ffyrdd o ddefnyddio adeiladau adfeiliedig a newid delwedd y dref oll yn cyd-fynd ag amcanion cadwraeth. Mae llawer wedi'i gyflawni dros y pum mlynedd diwethaf ac mae'r bywiogrwydd economaidd wedi gwella rywfaint ond erys heriau o hyd, yn enwedig safle hen Ysbyty Canolbarth Cymru sydd wedi dirywio ymhellach.

**11.2** Mae'r ardal gadwraeth bresennol yn cynnwys nifer o asedau ffisegol gwych, fel yr adeiladau rhestredig, nifer fawr o adeiladau llawn nodweddion sy'n bwysig yn lleol, grwpiau cydlynol, treflun cymhleth, topograffi amrywiol a llu o fanylion bach ond difyr, fel y waliau terfyn o gerrig. Mae'r traddodiad adeiladu brodorol yn gryf iawn, neu roedd yn gryf iawn, ac mae'n defnyddio cerrig lleol ac yn sefydlu arddull weledol o fanylion syml, cryf ac ymarferol. Ar ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif cefnwyd ar y traddodiad brodorol hwn, ond parhawyd i ddefnyddio'r tywodfeini lleol, wedi'u cymysgu â brics, gan greu rhai adeiladau a manylion llawn cymeriad. Bu traddodiad o flaenau siopau pren da ac adferwyd yr arfer o gynnal a chadw waliau terfyn o gerrig. Mae pobl leol yn benderfynol o ofalu am eu hasedau, gyda chynllun sydd ar waith ar hyn o bryd i atgyweirio ac ailddefnyddio'r Felin ac astudiaeth amlddefnydd bosibl ar gyfer Neuadd y Dref. Mae Gŵyl Talgarth, y Grŵp Adfywio a'r Gymdeithas Hanes leol oll yn tystio i'r awydd i wella a diogelu'r dref.

**11.3** Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae'r ardal gadwraeth yn wynebu nifer o broblemau o hyd, sy'n ymwneud yn benodol ag adeiladau adfeiliedig mewn ardaloedd fel Bell Street; uno cynulleidfaoedd Anghydffurfiol yn y dyfodol a cholli'r defnydd o ddau o'r capeli o ganlyniad i hynny; a newid nifer fawr o adeiladau anrhestredig sy'n dyddio o'r 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif drwy roi ffenestri a drysau newydd yn lle'r rhai gwreiddiol ac ailbwyntio adeiladau gan ddefnyddio morter sment caled, y mae'n amlwg y bydd yn cael effaith weledol. Mae'r defnydd o rendr ansoddedig hefyd yn erydu cymeriad traddodiadol. Mae angen codi safonau dylunio a disgwyliadau drwy osod esiampl a rhoi cyngor ac, o bosibl, drwy bwerau rheoli datblygu ychwanegol.

**11.4** Yn gyffredinol, dylai lleoliad yr ardal gadwraeth yn y dirwedd gael ei gydnabod yn ehangach, gan roi lefel ddigonol o ddiogelwch i goed a gwneud gwaith plannu newydd priodol, gwella 'pyrth' a gwneud yr afon yn fwy hygyrch (mae hyn yn rhan o'r cynllun presennol i adnewyddu'r Felin a sianeli).

## 12. Cynnwys y Gymuned

**12.1** Mae gan Dalgarth draddodiad diweddar cryf o gynnwys y gymuned mewn mentrau fel y Strategaeth Adfywio a'r Fframwaith Datblygu Lleol. Ymgynghorwyd â buddiannau lleol a'r cyhoedd ynghylch y ddogfen arfarnu ddrafft. Bu Cyngor y Dref yn barod ei gymwynas ac yn gefnogol iawn ac mae wedi rhoi benthyg dogfennau ac wedi darparu ffeithiau defnyddiol.

## 13. Canllawiau Lleol a Chynigion Rheoli

**13.1 Canllawiau dylunio:** Mae'n hanfodol y caiff gwaith datblygu newydd a newidiadau i adeiladau a strwythurau sy'n bodoli eisoes eu cynllunio i'r safonau uchaf posibl, gan ystyried manylion a chynlluniau hanesyddol a sicrhau'r cyfraniad uchaf posibl i natur unigryw'r ardal leol. Nid yw'r gofyniad sylfaenol hwn o reidrwydd yn hyrwyddo neo-arddull nac adfywiad brodorol nac yn diystyru datblygiadau arloesol ac atebion cynllunio modern sydd o safon uchel yn eu rhinwedd eu hunain neu a all ychwanegu at fwynhad gweledol o'r dref. Fodd bynnag, mae angen osgoi atebion safonedig, yn seiliedig ar fathau anhyblyg a chyfyngedig o dai (yn achos adeiladwr cenedlaethol neu ranbarthol) neu fathau o dai masnachol ansensitif, â manylion a mesuriadau gwael (yn achos blaenau siopau ac arwyddion).


**13.2** Mae'n bosibl nodi nifer o egwyddorion sylfaenol ar gyfer canllawiau dylunio, ar ffurf cliwiau gweledol a chod a all helpu dylunwyr i gyd-fynd ag arddulliau a manylion lleol yn yr ardal gadwraeth **(gweler y lluniau isod):**

- Dylai **cynlluniau adeiladau**, cynlluniau preswyl, yn benodol, anelu at adlewyrchu meintiau lleiniau a lleoliad unedau unigol o fewn y lleiniau gan gyfeirio at ddatblygiadau cyfagos; nid yw hyn yn golygu na ellir cael amrywiaeth na chyferbyniad tra ystyriol, ar ffurf terasau rheolaidd, rhesi mwy organig o dai neu dai ar wahân ond dylent oll wynebu tir y cyhoedd, naill ai ar ymyl y pafin neu y tu ôl i fannau blaen bach a dylai fod ganddynt ddarpariaeth ar gyfer parcio a gwasanaethau y gellir eu cyrraedd o dramwyfeydd ochr neu fynedfeydd bwaog. Gall adeiladau â thalcenni sy'n wynebu'r stryd fod yn ganolbwynt achlysurol a gall adeiladau siâp L (megis Great House Barn) fod yn briodol, ar yr amod y caiff y man amgaeedig ei gynllunio'n ofalus a'i gyfyngu. Fel rheol dylai fod gan adeiladau ddau lawr a gellir caniatáu hyd at dri llawr ond mae tai deulawr â ffenestri dormer yn y to hefyd yn briodol (er nad yw ffenestri dormer yn gyffredin ar adeiladau traddodiadol). Byddai tai unllawr ar raddfa amhriodol. Dylai adeiladau cymunedol neu fasnachol hefyd geisio parchu llinellau adeiladau presennol ac yn ffinio â phob man blaen dylai fod wal gerrig gadarn a dylai fod wedi'i dirlunio lle y bo'n briodol.
- **Màs, graddfa, amlinelliad**, mae ffryntiadau rhy fawr neu hir heb fawr ddim manylion arnynt yn dinistrio cymeriad a dylid rhannu ffasadau yn unedau rhesymegol gyda newidiadau i'r llinell adeiladu neu linell y to neu gan wahaniaethu rhwng deunyddiau mewn ffordd synhwyrol; dylai fod gan adeiladau ddau lawr neu dri llawr gydag agoriadau sy'n adlewyrchu meintiau traddodiadol; dylai'r amlinelliad amrywio, lle y bo'n bosibl, gyda nodweddion fertigol megis simneiau, ffenestri dormer a theils crib yn dal sylw pobl, gallai cromennau a chlociau fod yn addurn penodol ar adeiladau cyhoeddus neu fasnachol mawr. Dylai cribau toeon fod yn gyfochrog â llinell y ffordd neu ar ongl sgwâr iddi ac mae mathau talcennog a slip yn dderbyniol;
- **Deunyddiau**, byddai'r defnydd o Hen Dywodfaen Coch, sy'n adlewyrchu'r ystod o liwiau presennol, ar ffurf cerrig llanw (wedi'u gosod mewn slabiau llorweddol), wedi'u gosod yn fras mewn haenau neu'n batrymog, gydag ambell garreg ‘jymper’ yn tacluso llinellau haenau, yn adlewyrchu traddodiadau lleol; mae haenau mwy ffurfiol yn fanylyn eithriadol, a welir fel gorffeniad ‘wyneb craig’ ar ambell adeilad sy'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif; gallai cerrig mwy o faint sydd wedi'u naddu'n fras gael eu gweld fel manylion ar ffurf conglfeini a chapanau drysau (un bloc mawr); mae'r cyfuniad o gerrig llanw a chonglfeini

brics ac addurniadau drws a ffenestr yn dderbyniol; gall y defnydd o frics o sawl lliw ar gyfer manylion megis conglfeini a llin-gyrsiau fod yn ddeniadol, ar yr amod bod i'r system liwiau rywfaint o resymeg weledol a strwythurol; fel arfer nid anogid adeiladu ffasadau yn gyfan gwbl o frics oni ellir dangos bod amgylchiadau eithriadol a, wedyn, dylid ystyried lliwiau a dulliau clymu enghreifftiau hanesyddol (mae'r defnydd o uniad brics ar eu hyd ('stretcher bond') yn llai deniadol yn weledol ac yn llai cywir yn hanesyddol na'r dulliau clymu Ffleminaidd neu Seisnig); mae'n dderbyniol defnyddio rendr yn y rhan fwyaf o achosion, ac mae'n well cael gorffeniad esmwyth - dylid defnyddio rendr calch ar gyfer atgyweiriadau neu estyniadau i adeiladau hanesyddol a rendr sment mewn lliw cerrig gwyn, llwydwyn, neu lwyd. Dylid defnyddio llechi Cymreig ar gyfer toeon neu ddeunydd toi arall sy'n dderbyniol o ran lliw, maint ac ansawdd; gellir ystyried bod teils tywodfaen yn ddymunol hefyd ar gyfer gwaith atgyweirio arbenigol ar adeiladau hanesyddol. Dylai simneiau fod wedi'u gwneud o frics gyda photiau clai a byddai teils crib addurniadol yn fanylyn addurniadol da.

- Mae'n bwysig **gofalu am ddeunyddiau** ar adeiladau rhestredig ac anrhestredig. Mae'n well defnyddio morter calch yn hytrach na morter sment caled ar atgyweiriadau ac estyniadau i adeiladau hanesyddol a dylai gwaith pwyntio cerrig a brics, ar atgyweiriadau ac adeiladau newydd, ddilyn manylion traddodiadol, gydag uniadau gwastad, gwrthsoddedig neu ddwbl, gan sicrhau nad yw'r morter yn bargodi dros y brics na'r cerrig o'i amgylch. Dylid defnyddio'r un deunydd i ddisodli morter calch presennol bob amser a dylid ceisio cyngor ar gyfansoddiad neu dechnegau gan Swyddog Cadwraeth Adeiladau'r Awdurdod. Ni ddylai cerrig na brics byth gael eu paentio, oni ddefnyddir gwyngalch, a dylid ceisio cyngor ar sut i ddefnyddio deunyddiau amddiffynnol clir.
- Fel rheol dylai **ffenestri a drysau** fod wedi'u gwneud o bren, gyda phatrymau bariau gwydro a thrwch a phroffiliau fframiau yn adlewyrchu mathau traddodiadol, ffenestri codi sydd naill ai'n amlgwarelog â dwy uned gyfartal neu sydd â ffenestr uchaf lai o faint, dylai bariau fod yn denau a dylai mesuriadau cwarelau gyd-fynd ag enghreifftiau hanesyddol. Dim ond corn bargodol syml a ddylai fod gan y rheiliau cwrdd uchaf pan fydd adeiladau sy'n dyddio o ganol neu ddiwedd y 19eg ganrif yn cael eu hatgyweirio neu pan fydd adeiladau newydd yn ceisio adlewyrchu eu manylion. Ar adeiladau hanesyddol, dylid cyfyngu ffenestri dwbl i unedau seiliedig pren a chanddynt fanylion addas neu dylid ystyried gosod haen arall o wydr. Nid anogid defnyddio PVCu fel arfer ond drwy ddewis cynhyrchion o ansawdd da yn ofalus efallai y gellid caniatáu ei ddefnyddio ar adeiladau newydd neu estyniadau cefn. Fel arfer mae ffenestri wedi'u gosod yn ddiaddurn yn arwyneb y wal, gyda thrwch o wal, neu gil, yn dangos ond gwelir amgylchynau uchel mewn un neu ddau adeilad hŷn. Dylai drysau fod wedi'u gwneud o bren, gan ddefnyddio estyll fertigol ar adeiladau brodorol, hŷn, gan wrthod unrhyw demtasiwn i ddefnyddio colynnau goraddurnol neu ddodrefn drws, a byddai un ffenestr wydr yn goleuo'r tu mewn. Fel arfer byddai gan ddrysau panelog bedwar panel suddedig, gydag amgylchynau wedi'u mowldio neu ganolau 'fielded' ac uchel, fel arfer dau banel uwch uwchben pâr llai o faint, gall fod gan fathau â chwe phanel barau llai o faint uwchben ac oddi tanynt gall y pâr canol a'r rhai uchaf fod yn baneli gwydr; mae ffenestri linter plaen hefyd yn rhoi golau. Dylid osgoi drysau masgynyrchedig nodweddiadol â nifer o baneli a ffenestri linter 'Sioraidd' integredig. Dylid paentio'r holl waith ac mae staeniau pren yn rhy dywyll ac yn annilys.

- Dylai **portshys a chanopïau** adlewyrchu traddodiadau lleol o symlrwydd a defnyddioldeb, gyda chanopïau gwastad, wedi'u bracedu neu doeon croes ar ategion.
- Mae **gwteri a phibelli dŵr** yn fanylion pwysig; dylid atgyweirio enghreifftiau o haearn bwrw sy'n bodoli eisoes lle y bo'n bosibl ac mae cynhyrchion metel yn well na rhai plastig.
- Mae **blaenau siopau** yn gofyn am waith dylunio a gorffeniadau o'r safon uchaf. Dylid atgyweirio enghreifftiau hanesyddol yn ofalus, gan ddefnyddio deunyddiau a manylion ategol neu dylai rhai newydd neu amnewid naill ai geisio efelychu enghreifftiau hanesyddol (gan ddefnyddio pren, ffenestri arddangos â myliynau tenau, pilastrau ochr â bracedau neu baneli endoredig, drysau gwydr a drysau panelog a ffasgiâu ag amgylchynau wedi'u mowldio). Mewn rhai achosion, gellir ystyried ateb dylunio symlach, heb yr holl fanylion hanesyddol, ond dylid ystyried deunyddiau, mesuriadau, lliwiau ac arwyddion yn ofalus.





- Mae **lliwiau** hefyd yn rhan bwysig o nodweddion cyffredinol y dref. Dylai rendr fel arfer fod yn wyn, yn llwydwyn neu'n llwyd a dylai pren wedi'i baentio fod yn wyn neu mae'n dderbyniol defnyddio lliwiau 'cadwraeth' modern; mae'r defnydd o ddu, lliwiau tywyll eraill neu staeniau tywyll ar ffenestri yn tueddu i bylu effaith israniadau megis bariau gwydro; dylai fod mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â blaenau siopau ond nid anogir y defnydd o liwiau llachar, croes a dylid osgoi arwynebau adlewyrchol, sgleiniog hefyd; ar flaenau siopau, anogir defnyddio ysgrifen arwyddion a dylai goleuadau fod ar ffurf goleuadau stribed neu sbotoleuadau ar wahân uwchben neu islaw'r brif astell dywydd.
- Dylai **unedau atodol**, megis estyniadau, ymwneud â'r rhiant-adeilad o ran lled y to, uchder y grib, manylion a deunyddiau ac mae adeiladau croes neu doeon talcennog, ar oleddf debyg i'r prif floc, yn dderbyniol; mae'r daflen o luniau sy'n ymdrin ag ‘estyniadau’ yn rhoi rhagor o fanylion.


- Mae **ffiniau** yn arbennig o bwysig a dylid eu sefydlu neu eu hail-greu yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, gyda waliau o gerrig llanw sydd rhwng metr (gyda rheiliau haearn) a dau fetr o uchder neu'n uwch (ar gyfer waliau cynhaliol). Dylai meini copa adlewyrchu arddulliau lleol, wedi'u gorffen â slab gwastad neu estyll fertigol (o faint tebyg neu yn arddull 'ceiliog ac iâr'). Gall waliau brics neu waliau wedi'u rendro fod yn briodol ar yr amod y caiff ansoddau a lliwiau eu dewis yn ofalus. Gellid ystyried gwrychoedd mewn lleoliadau mwy 'gwledig', yn enwedig os caiff planhigion eu gosod ar dwmpathau pridd, er mwyn adlewyrchu arddull cloddiau. Dylid plannu rhywogaethau brodorol ac nid coed coniffer egsotig.
- Mae **gwaith tirlunio** yn ddymunol yn y rhan fwyaf o achosion, yn enwedig ar hyd ffiniau neu'n agos atynt ac mewn mannau blaen. Mae setiau cerrig, slabiau o dywodfaen, ymylon brics a gro oll yn briodol. Dylai planhigion a choed adlewyrchu mathau lleol a dylid osgoi rhywogaethau conifferaidd egsotig.
- Mae **safonau cynllunio priffyrdd** yn benderfynyddion pwysig iawn o ragoriaeth ym maes cynllunio a sensitifrwydd mewn ardaloedd hanesyddol. Anogir yr Awdurdod Priffyrdd i barhau i weithio ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Chyngor y Dref i sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf ystyriol o'r safonau cynllunio, i fod yn hyblyg pan fo'n briodol ac i ddefnyddio'r deunyddiau a'r gorffeniadau mwyaf priodol pan fo adnoddau ariannol yn caniatáu.

**13.3** Nod **cynigion rheoli** yw nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu y gall yr awdurdodau lleol, Cyngor y Dref, Cadw, cwmnïau cyfleustodau ac unigolion eu hystyried. Mae'r cynigion yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella a pholisïau ar gyfer osgoi newid niweidiol. Gall argaeledd adnoddau ariannol ac adnoddau staff gyfyngu ar syniadau ond bydd gwaith partneriaeth yn fuddiol. Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol bwerau cynllunio ar hyn o bryd i unioni materion fel cyflwr gwael tir ac adeiladau, hysbysiadau brys o waith ac atgyweirio ar gyfer adeiladau rhestredig ac adeiladau a strwythurau nad ydynt yn rhestredig. Mae (Gorchymyn Datblygu Cyffredinol) Cynllunio Gwlad a Thref 1995 yn rhoi hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer mân waith adeiladu, gyda rhai cyfyngiadau mewn ardaloedd cadwraeth. Drwy ddefnyddio Cyfarwyddyd Erthygl 4, gellir cyfyngu ymhellach ar hawliau datblygu a ganiateir. Gellir ystyried hyn pan fetho popeth arall a gall fod yn well codi ymwybyddiaeth a rhoi cyngor cadarnhaol.

**13.4** Mae **Atodiad Un** yn nodi nifer o gynigion ar ffurf tabl, gan nodi'r corff arweiniol ym mhob achos. Maent yn cynnwys gwarchod adeiladau hanesyddol; gwella safleoedd ac adeiladau negyddol; cynnal a chadw adeiladau a'u hatgyweirio; rheoli datblygiadau newydd; colli manylion pensaernïol a mân newidiadau i adeiladau hanesyddol; materion sy'n ymwneud â thir y cyhoedd; cynnal y gwahanol 'byrth' i'r dref; cadw'r llawrlun hanesyddol; diogelu mannau gwyrdd; a rheoli coed a gwella'r dirwedd. Mae mân newidiadau a newidiadau mawr i ffin yr ardal gadwraeth wedi'u cynnwys hefyd. O'r amrywiaeth o syniadau cyffredinol, gobeithio y caiff prosiectau gwella penodol eu datblygu.


SCALE AND OUTLINE
importance of chimneys to skyline
two storeys plus dormers or rooflights
UNIFORM TERRACE
rhythm of windows and doors, but scope for variation of details
half-dormers under gablets
'ORGANIC' TERRACE
With differing roof lines, gablets and prominent gable
MATERIALS
stone roughly coursed
brick
blue
red
blue
SANDSTONE RUBBLE, ROUGHLY TO COURSES WITH LARGER QUOINS AND MONO-LITHIC LINTELS
STONE OR RENDER WITH BRICK QUOINS, AND DOOR AND WINDOW HEADS
POLYCHROMATIC BRICK (PATTERNING ON LINTELS AND STRING COURSES)
PLAIN RENDER IS ALSO A LOCAL CHARACTERISTIC

## CARE OF MATERIALS: POINTING AND CLEANING





1–3 ARE TRADITIONAL DETAILS THAT ALLOW THE BRICK OR STONE BONDING PATTERN TO SHOW TO BEST ADVANTAGE.

4 IS COMMONLY USED, CREATED BY A ROUNDED STEEL TOOL. 5 AND 6 ARE MODERN FINISHES THAT ARE VISUALLY UNATTRACTIVE, DIMINISHING THE IMPACT OF THE WALLING MATERIAL.

a WHEN REPOINTING, AVOID THE USE OF HARD CEMENT MORTARS AND ENSURE THAT TRADITIONAL FINISHES ARE USED AND MORTAR DOESN'T EXTEND OVER THE SURROUNDING BRICK OR STONEWORK.


b SEEK SPECIALIST ADVICE WHEN CLEANING STONE AND BRICK AND WHEN CONSIDERING THE REMOVAL OF PAINT (AVOID PAINTING 'NATURAL' STONE AND BRICK IN THE FIRST PLACE).

## STONE BOUNDARY WALLS




JRW

# EXTENSIONS




## EXISTING FORM


Consider basic shape and form of the building, particularly its ROOF SPAN & plan an extension that respects these characteristics:


- ... are there existing extensions in line with the main roof axis?
- ... are these of the same ridge height or lower?
- ... are there historically interesting & visually attractive rear 'outshuts' or 'catslide' roofs?

## SCALE

AVOID overwhelming original building by over-large extensions or dormer windows & loft extensions; porches should relate carefully to the main block

GARAGES AND OUTBUILDINGS should not dominate the street frontage – where possible set back behind main frontage block or at 90° to the road line





## DESIRABLE SOLUTIONS


Extending under a roof of similar span & pitch OR lowering the ridge & setting back the building line to create a visually subordinate unit are good basic principles

At the rear, consider extending main roof over a single storey extension (as a 'catslide') or creating a link unit to a two storey extension






## DETAILS

- + MATCH COLOUR, TEXTURE AND DETAIL OF ORIGINAL BUILDING IN AN EXTENSION
- + MATCH DETAILS OF ORIGINAL ROOF – PITCH, RIDGE TILES, VERGES (BARGEBOARDS, EXPOSED PURLIN ENDS) AND EAVES
- + PITCHED ROOFS ON PORCHES SHOULD RELATE TO MAIN ROOF COVERING




JOHN WYKES


WINDOWS AND DOORS
TRADITIONAL WINDOWS
8/8 panes
4/8 panes
C
A
B
HORN DETAIL
6/6 panes
3/3
D
E
eared or lobed surround
TRADITIONAL TYPES
A BASIC SASH
B SASH WITH HORNS AND VERTICAL BAR (LATE C19)
C MULTI-PANE SASHES (1780-1850)
D LATE C19 SASHES
E MARGINAL GLAZING BARS (1850 - 1900)
opening light
Fi
Fii
F CASEMENTS
NB: INDIVIDUAL PANES ARE VERTICAL IN EMPHASIS & GLAZING BARS ARE SLENDER
MODERN REPLACEMENTS
THE CHOICE OF REPLACEMENT WINDOWS CAN ENHANCE OR REDUCE BUILDING CHARACTER.
REPLACEMENT TIMBER WINDOWS CAN ACCURATELY COPY TRADITIONAL TYPES.
UPVC MAY PRODUCE OVER-THICK FRAMES & FALSE BARS.
THE BASIC SASH (A) AND CASEMENT (F) MAY BE ACCURATELY REPLICATED IN WOOD OR UPVC.
Wooden window with too many & too thick glazing bars
'Unresolved duality' created by single vertical bar - panes have an unsettling horizontal emphasis
UPVC false sash with all glazing in one vertical plane; thick centre rail & applied glazing bars


WINDOWS AND DOORS
TRADITIONAL DOORS
planks mortised and tenoned and framed to rear
NB absence of cover strips, strap hinges and other 'heritage' features
SIMPLE PLANK DOOR
can be glazed
SIX PANEL DOOR (EARLY-MID C19)
fanlight
Panels can be moulded with sunk centres or can have a 'fielded' (raised) centre with a recessed surround and a higher moulded frame
FOUR PANEL DOOR (LATE C19 - EARLY C20)
TWO LONG PANELS
FOUR PANELS
TWO OVER ONE
VARIATIONS ON A PANELLED DOOR
It is also possible to have three panels in the lower part
TWO 'NEO-GEORGIAN' TYPES WITH FALSE FANLIGHTS
TIMBER DOOR WITH CRUDE RADIAL GLAZING BARS
MULTIPLE PANELS WITH 'TUDOR' OVERTONES
CENTRAL VERTICAL BAR CREATES A RESTLESS 'UNRESOLVED DUALITY'
MODERN UPVC OR TIMBER DESIGNS WHICH ARE HISTORICALLY INCORRECT AND USUALLY UNSYMPATHETIC TO OLDER HOUSES — AVAILABLE 'OFF THE PEG' FROM MANUFACTURERS
JRW

## 14. Manylion Cyswllt

**14.1** Yr ymgynghorydd a luniodd y ddogfen hon oedd John Wykes Conservation & Planning, johnwykes@virginmedia.com; a'r swyddog cyswllt yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw Tracy Nettleton, Pennaeth Strategaeth, Polisi a Threftadaeth, ar 01874 620412 neu tracy.nettleton@breconbeacons.org.

## 15. Llyfryddiaeth

*Unitary Development Plan, Development Control Guidance Note, Talgarth Development Brief, Brecon Beacons National Park, Rhagfyr 2008*

*Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990, List of Buildings of Special Architectural or Historic Interest, The District of Brecknock: List No. 68 Resurvey 'E', the Community of Talgarth, Cadw, 1995*

*Talgarth & District Local Action Plan, "The Way Forward", Talgarth & District Regeneration Group*

*Talgarth Town Hall, Outline Redevelopment Study, B3 Architects, Tachwedd 2008*

*Talgarth and District Victorian maps, Victorian Powys, Powys Digital History Project*

*Historic Landscape Characterisation, The Middle Wye: Llynfi, Bronllys, Felinfach, Llangorse, Talgarth (HLCA 1091), Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys*

*Brecknockshire Churches Survey, Church of St Gwendoline, Talgarth, Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys*

*Town Walk around Talgarth, www.visittalgarth.co.uk*

*Powys, The Buildings of Wales, Richard Haslam, Penguin Books Ltd, 1979*

*Houses of the Welsh Countryside, P. Smith, 1975*

*Shell Guide to Mid Wales, David Verey, 1960*

*Understanding Place, Guidance on conservation area appraisals, English Heritage*

*Understanding Place, Guidance on the management of conservation areas, English Heritage*

## 16. Rhestr o Dermau Pensaernïol

**Addurniadau** manylion ffenestr, drws neu gornel sydd wedi'u gwneud o gerrig a brics o ansawdd gwell

**Ag wyneb o graig** cerrig wedi'u ffasedu'n ofalus, ag arwyneb ansoddedig

**Amlffocal** â dau neu ragor o ganolau neu ganolbwyntiau

**Arddull Celf a Chrefft/Y Frenhines Anne** arddulliau o ddiwedd y 19eg ganrif sy'n seiliedig ar fanylion adeiladu Prydeinig traddodiadol

**Art Nouveau** arddull artistig a phensaernïol, 1890-1920, gydag addurniadau sy'n seiliedig ar blanhigion a chromliniau

**Asiadau (Brics), Ffleminaidd, Seisnig ac uniad brics ar eu hyd** gwahanol batrymau o frics croes (pennau byr) ac uniadau brics ar eu hyd, gyda rhai bob yn ail ym mhob cwrs (Ffleminaidd); cyrsiau eiledol o'r ddau fath (Seisnig) a brics hir i gyd (uniad brics ar eu hyd)

**Bar gwydro** darn o bren neu fetel sy'n rhannu ffenestr, sy'n cynnal cwarelau gwydr unigol

**Bar gwydro rheiddiol** bariau sy'n rhannu ffenestr bengrwn ac sy'n ymestyn allan o ganolbwynt cyffredin

**Brecon Hopper** ffenestr leol â chasment a gaiff ei hongian o'r ochr dros ffenestr godi neu ffenestr osodedig amlgwarelog

**Brodorol** arddulliau adeiladu lleol, nad yw ffasiynau cenedlaethol wedi dylanwadu arnynt

**Bwa ar gambr** â chrymedd gwastad iawn

**Bwa cylchrannol** rhan o linell grom hanner-cylchog

**Caer ddeufur** dwy linell o ragfuriau a ffosydd fel amddiffyniad

**Canopi ysgubedig** ag ochrau ceugrwm sy'n crymu o wyneb y wal i flaen y bargodiad

**Capan drws/ffenestr** trawst a osodir dros ben drws neu ffenestr

**Capanau gwarrog** trawst llorweddol a gynhelir ar fwâu chwarter bach sy'n gysylltiedig ag ategion fertigol ochr

**Cerrig llanw wedi'u gosod yn fras** gwaith maen afreolaidd, dibatrwm

**Cil** trwch gweladwy'r wal y gosodir drws neu ffenestr ynddi

**Ciwpola** cromen fach

**Clasurol** yn ymwneud â manylion Groegaidd a Rhufeinig a manylion cyfnod y Dadeni

**Codwr stondin** gwaelod blaen siop, o dan y ffenestr

**Conglfaen** carreg neu fricsen gongl fwy o faint, sy'n aml yn uchel neu wedi'i haddurno

**Croeslath** bar gwydro llorweddol

**Dadeni Gothig** y defnydd o bensaernïaeth a manylion bwaog pigfain sy'n dyddio o'r cyfnod rhwng diwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 20fed ganrif

**Drws llwytho** agoriad mewn warws neu adeilad diwydiannol lle yr eir â nwyddau i mewn neu allan

**Ffenestr ddolennog** ffenestr gul mewn ysgubor neu sied

**Ffenestr ddormer** ffenestr a osodir ym mhlân ar oleddf to, fel arfer yn yr atig

**Ffenestr fae ar ogwydd** ffenestr fargodol ac ochrau ar led ar y llawr gwaelod

**Ffenestr gasment** ffenestr bren neu fetel â cholynnau ochr

**Ffenestr godi** ffenestr bren wedi'i hongian yn fertigol, a chanddi ddwy ffenestr sy'n agor, y naill uwchben y llall

**Ffenestr gron** agoriad crwn â rhwyllwaith syml

**Ffenestr lansed** ffenestr uchel, denau yn yr arddull Gothig cynnar

**Ffenestr oriel** ffenestr fargodol ar y llawr uchaf

**Gwydr ymylol** patrwm o fariau ffenestr neu ddrws sy'n dyddio o'r cyfnod rhwng canol a diwedd Oes Fictoria lle mae'r cwarelau allanol sydd agosaf at y ffrâm yn llai na'r rhai canolog

**Meini copa** meini copa ar wal y bwriedir iddynt gael gwared â dŵr

**Meini copa ceiliog ac iâr** wal ac arni gerrig fertigol hir a byr bob yn ail

**Mwnt** twmpath pridd amddiffynnol

**Myliwn** rhaniad fertigol ffenestr

**Olwyn dros y rhod** olwyn melin a yrrir gan ddŵr sy'n llifo oddi uchod a dros ben yr olwyn

**Panel 'fielded'** panel drws neu wal â phanel suddedig a chanol bargodol, uchel

**Panel tywydd/astell dywydd** astell enw lorweddol ar ran uchaf blaen siop

**Patrymog, wedi'u gosod i greu patrymau** cerrig neu frics sydd wedi'u gosod mewn haenau rheolaidd, gyda'r uniadau mewn un rhes

**Pediment** talcen trionglog, a nodweddir gan bensaernïaeth glasurol

**Pigyn** blaen a ffurfir gan ddwy linell grom yn cyfarfod â'i gilydd, a welir mewn rhwyllwaith ac addurniadau Gothig

**Pilastr** colofn hirsgwar fas ynghlwm wrth wal

**Plastr garw** rendr ansoddedig

**Rhwyllwaith** Y rhaniad syml mewn ffenestr yn yr arddull Gothig cynnar

**Rhwyllwaith gwag** rhan addurnedig o ben ffenestr Gothig, wedi'i llenwi â cherrig yn hytrach na gwydr

**Talcen grisiau brain** rhannau uchaf waliau â phroffil grisiog

**Talcennig** talcen bach, rhan drionglog fertigol wal derfyn

**To 'cwmpawd'** to â chrib yn y canol

**To pentis** to ategol

**To slip** ongl a grëir gan ddwy ochr to sydd ar oleddf

**Tramwyfa groes** cynllun tŷ gyda mynedfa yn rhedeg drwodd i'r cefn


**Tŷ bonedd** tŷ mwy o faint, o statws uwch, a nodweddir gan bensaernïaeth foneddigaidd fel arfer

**Tŷ hir** cynllun tŷ gwledig ag ystafelloedd byw a lle i anifeiliaid o dan un to hir

**Tŷ neuadd** tŷ o statws uchel sydd â neuadd agored

**Ymyl bondo** bwrdd pren sy'n diogelu pennau trawstiau to, mae'n dilyn llethr y to fel arfer

**Yr Adferiad Tuduraidd** manylion sy'n dyddio o'r 16eg ganrif a ailddefnyddiwyd yn y cyfnod rhwng y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif, a nodweddir gan dalcenni, ffenestri miliynog ac elfennau clasurol israddol




## 17. Atodiadau, Mapiau a Lluniau


### ATODIAD UN, CYNIGION RHEOLI


| CYNNIG | SYLWADAU/CORFF ARWEINIOL | Cynnydd ers 2011 |
|---|---|---|
| **1. Gwarchod adeiladau hanesyddol**<br>• ***Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn adolygu'r rhestr o adeiladau sy'n bwysig yn lleol ac yn ystyried a ddylid anfon unrhyw rai ymlaen at Cadw i'w rhestru***<br>• ***Dim ond os gellir cyfiawnhau dymchwel adeilad sy'n bwysig yn lleol yn erbyn y meini prawf a nodir yn PPG 15, paragraffau 3.16-3.19 y rhoddir caniatâd ardal gadwraeth i'w ddymchwel*** | Dylid defnyddio'r rhestr ym mhara. 8.3 fel sail ar gyfer ystyried y mater hwn a dylai unrhyw awgrymiadau eraill a godwyd yn yr ymgynghoriad gynnwys *(Awdurdod y Parc Cenedlaethol/Cadw, y Gymdeithas Hanes Leol) CWBLHAWYD* | Cwblhawyd 2013<br><br>Polisi 18 yn y FfDLl a fabwysiadwyd Diogelu cymeriad adeiladau ar y rhestr leol |
| **2. Safleoedd ac adeiladau negyddol**<br>• ***Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio gwella safleoedd ac adeiladau yr ystyrir eu bod yn cael effaith negyddol ar yr ardal gadwraeth*** | Dylai Bell Street fod yn ardal â blaenoriaeth *(Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Cyngor y Dref, y Grŵp Adfywio, Cyngor Sir Powys)* | Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ond mae angen adnewyddu Rhif 1 Bell Street a Rhif 9 Bell Street o hyd |
| **3. Cynnal a chadw adeiladau a'u hatgyweirio**<br>• ***Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio monitro cyflwr pob adeilad hanesyddol yn yr ardal gadwraeth ac yn cymryd camau priodol i ddiogelu eu dyfodol***<br>• ***Bydd yr Awdurdod yn ystyried*** | Mae Melin Talgarth a Neuadd y Dref yn ddau gynllun atgyweirio ac ailddefnyddio sydd ar waith ar hyn o bryd ac y dylid ystyried eu bod yn flaenoriaethau | Mae Melin Talgarth yn gwbl weithredol.<br>Mae Cyngor y Dref wedi gwneud rhywfaint o waith atgyweirio |

| | | |
|---|---|---|
| *ffyrdd o helpu i atgyweirio adeiladau hanesyddol sy'n ymddangos ar y Gofrestr o Adeiladau mewn Perygl*<br>• ***Cefnogir cynlluniau addas i adfywio a gwella ardaloedd lle yr ystyrir y bydd y rhain yn cael effeithiau buddiol ar olwg ac economi canol y dref*** | *(Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Cyngor y Dref, Grŵp Prosiect y Felin)* | ac erbyn hyn mae llwybr dianc eilaidd o'r ardal i lawr y grisiau hefyd. Mae'n gweithio ar gynllun ar gyfer islawr Neuadd y Dref. |
| **4. Rheoli datblygiadau newydd**<br>• ***Caiff cynigion datblygu eu hasesu i weld beth fydd eu heffaith ar gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth fel y'u nodwyd yn yr Arfarniad o'r Ardal Gadwraeth, ynghyd ag unrhyw bolisïau cynllunio perthnasol eraill***<br>• ***Bydd angen Datganiad Dylunio a Mynediad ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol pan fydd yn dilysu pob cais cynllunio yn yr ardal gadwraeth*** | *Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yr Awdurdod Priffyrdd* | |
| **5. Colli manylion pensaernïol a mân newidiadau i adeiladau hanesyddol**<br>• ***Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn annog adfer nodweddion pensaernïol dilys lle mae tystiolaeth gadarn o fanylion gwreiddiol***<br>• ***Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn llunio canllawiau cynghorol a fyddai'n helpu i gadw a gwella cymeriad hanesyddol a golwg yr ardal gadwraeth yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwaith dylunio da a chydnaws*** | Gallai para. 13.2 a lluniau o'r adroddiad hwn fod yn sail i ganllawiau *(Awdurdod y Parc Cenedlaethol)*<br><br>Gellid defnyddio 'hyrwyddwr dylunio' i hyrwyddo arfer da ac ati, o bosibl. *(Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Cyngor y Dref?)* | Mae Cyngor y Dref wedi gofyn am i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ystyried cyflwyno Cyfarwyddebau o dan Erthygl 4(2) ac ymgynghori yn eu cylch er mwyn atal manylion pensaernïol yr adeiladau rhag cael eu difrodi ymhellach. |
| **6. Materion sy'n ymwneud â thir y cyhoedd**<br>• ***Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio negodi ynghylch gosod polion a gwifrau yn yr ardal gadwraeth dan y ddaear neu eu rhesymoli a bydd yn hyrwyddo gwelliannau i ffiniau ac arwynebau lle y'u nodir*** | Dylid ystyried bod Heol yr Eglwys yn flaenoriaeth *(Awdurdod y Parc Cenedlaethol, cwmnïau cyfleustodau cyhoeddus)* | Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn sicrhau ei fod yn cael gwybod am yr holl gyfleoedd ariannu posibl sydd ar gael er mwyn gwella tir |


| | | |
|---|---|---|
| | | y cyhoedd |
| **7. Pyrth i'r ardal gadwraeth**<br>• ***Dylai pob datblygiad barchu ffyrdd dynesu gwledig deheuol a dwyreiniol yr ardal gadwraeth, y fynedfa yn Bronllys Road a'r fynedfa orllewinol bwysig i High Street*** | *Awdurdod y Parc Cenedlaethol* | |
| **8. Y llawrlun hanesyddol**<br>• ***Dylid diogelu palmentydd a chyrbau hanesyddol a gratin a chwteri cysylltiedig a'u hatgyweirio, os oes angen, gan ddefnyddio technegau a deunyddiau traddodiadol***<br>• ***Dylid manteisio ar gyfleoedd i adfer neu gyflwyno ardaloedd newydd o balmentydd gan ddefnyddio deunyddiau sy'n gydnaws ag enghreifftiau hanesyddol*** | *Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yr Awdurdod Priffyrdd* | Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn sicrhau ei fod yn cael gwybod am yr holl gyfleoedd ariannu posibl sydd ar gael er mwyn gwella tir y cyhoedd |
| **9. Mannau gwyrdd**<br>• ***Caiff mannau gwyrdd pwysig eu diogelu rhag gwaith datblygu neu waith anghydnaws yn nhir y cyhoedd***<br>• ***Cefnogir gwaith gwella, megis gwaith plannu newydd, gwelliannau i ffiniau a gwaith i atgyweirio llwybrau*** | Gellid gwneud gwaith plannu amwynder ychwanegol ar lan Afon Ennig ger Bronllys Road; byddai sianel yr afon a'r ffrwd i'r de o'r Felin yn cael budd o waith rheoli ychwanegol a gwaith i atgyweirio a gwella llwybrau *(Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Cyngor y Dref, Grŵp y Felin)* | Parheir i ymchwilio i'r potensial ar gyfer defnyddio llwybrau ac ardaloedd wedi'u plannu Afon Ennig fel safle i dwristiaid Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gweithio gyda Chyngor y Dref ac ati i roi cyngor mewn perthynas â'r prosiect hwn. |
| **10. Rheoli coed a phlannu coed newydd**<br>• ***Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn paratoi cyngor ar ofalu am goed a gwrychoedd yn yr ardal gadwraeth a'u cynnal a'u cadw***<br>• ***Cefnogir mentrau ar gyfer gwaith plannu newydd sy'n defnyddio rhywogaethau brodorol priodol, yn enwedig ar fannau gwyrdd ac ymylon a phyrth yr ardal gadwraeth*** | Cynllun posibl Bronllys Road *(Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Cyngor y Dref)* | |
| **11. Adolygu ffin yr ardal gadwraeth** | Nodwyd newid bach i'r ffin bresennol a'r potensial ar gyfer ei hymestyn ar hyd | Nid oes unrhyw gynigion i newid y ffin yn dilyn yr adolygiad hwn |

| | | |
|---|---|---|
| | Bronllys Road, rhan o Trefecca Road a phen dwyreiniol Heol yr Eglwys.<br><br>Mae potensial i ymestyn y ffin gryn dipyn i gynnwys adeiladau a thiroedd hen Ysbyty Canolbarth Cymru. *(Awdurdod y Parc Cenedlaethol)* | |





TALGARTH – MID C19 HOUSE, THE BANK
tapered square pots
slate
smooth render
pilastered door surround with open pediment four panelled door and fanlight
sashes with 'marginal' glazing
railings in an earlier C19 style with urn finials to the standards
JOHN WYKES


strong modelling: projecting cornice and rounded corner
typical Edwardian windows with glazing bars in top lights only
early C20 house packed with detail: large dormer; projecting oriel window; bracketed door canopy; coloured glass lights
vitrified header bricks create chequer pattern
handsome shop front with Art Nouveau enrichments
TALGARTH – THE STRAND
The STRAND
JOHN WYKES




## Yr Ardal Gadwraeth Bresennol
## Ffin yr Ardal Gadwraeth Arfaethedig



## Tabl 1: Rhestr o Adeiladau Lleol

1 a 2 Hospital Villas
1 a 2 New Hospital Villas
1 a 2 Black Lion Cottages
1 Bell Street
1 Church Row
1 Cottage Lane
1 Glanenig Terrace
1 High Street
1 Powells Terrace
1 Swan Terrace
1 Victoria Cottages
1-3 Aberenig Terrace
1-6 College Terrace
2-6 Lower Hospital Villas
1-6 Regent Street
2 Church Row
2 High Street
Compton House, 2 Powells Terrace
2 Swan Terrace
3 a 4 Hospital Villas
3 a 4 New Hospital Villas
3 Bell Street
3 Church Row
3 Glanenig Terrace
3 Hay Road
3 High Street
3 Powells Terrace
3 Swan Terrace
4 Church Row
4 Hay Road
4 High Street
4 Swan Terrace
5 Bell Street
5 Hay Road
6 Hay Road
7 Regent Street
8 High Street
Aberenig
Bank House
Bank View
Ysgubor ger Bruton House
Barron Villa
Beiliau-Bach
Belmont House, 3,7,9,11,13, 15 Bell St
Berth-fedw
Eglwys Ddiwygiedig Unedig Bethania
Blackberry Barn
Blaenau Bach
Blaenau Bach

Blaenau-draw
Ysgubor Blaenau-draw
Fferm Blaenau-draw
Blaenau-Isaf
Ysgubor Blaenau-Isaf
Blaenau-Uchaf
Ysgubor Blaenau-Uchaf
Ysgubor 1 Blaenffinnant
Ysgubor 2 Blaenffinnant
Fferm Blaenffinnant
Brecon Cottage (Doll House)
Brenton Hall
Bridge Cottage
Bristol House
Bron-y-Garth
Bruton House
Bryncelyn
Bryn Hedd
Brynawel
Caepost
Cambrian House
Cartref
Castell-yr-Eos
Castell-yr-Eos
Chancefield House
Capel y Presbyteriaid Bethlehem
Rheiliau Church Villa
Church Villa
Waliau'r Ganolfan Gymunedol
Y Siop Gydweithredol
Coronation Cafe
Court Barns
Craigend
Craigend
Creigiau Cottages
Y Pafiliwn Criced, Ysbyty Canolbarth Cymru
Cross House
Cwm
Cwm
Cwmfforest
Cwm-ffrwd
Cynog Cottage
Ysgubor Dolfawr
Fferm Dolfawr
Enig Villa a The Annexe
Fern Lea
Fernleigh
Fforest Mill
Fir Tree Cottage
Hen fythynnod
Garth House (fferyllfa)

Glandwr
Ysgubor Glandwr
Glanenig
Glen House
Y Clwb Gleidio
Grafog
Ysgubor 1 Grafog
Ysgubor 2 Grafog
Man gwyrdd a waliau
Greystones, Bell Street
Grovelly House a Grovelly Cottage
Fferm Gwernllwyd
Fferm Gwernllwyd
Gwernyfed
Hazeldene
Hendre
Heol Rowland
Heol-Rowland
Hill Croft
Hillview?
Man Agored Pwysig
Ivy Cottage
Ivydene
Joe's Lodge
Lawton House
Llanelieu Barn
Llanelieu Granary
Llanerch
Llanerch
Lower Trewalkin
Lower Trewalkin
Maesgwyn House
Manchester House
Marton House
Capel y Bedyddwyr Tabernacle
Monesk, High Street
Eglwys Bresbyteraidd Moriah
Mount Pleasant
Banc y National Westminster
Neuadd Fach
Neuadd Fach
Neuadd Felin
New House
New House Barn
New Inn
Ger Beiliau Bach
Ger Beiliau Bach
Ger Cwm y Nant
Nythfa
Old Black Lion
Old Font House

Hen Orsaf yr Heddlu, Bell Street
Hen Swyddfa'r Post, High Street
Yr Hen Ysgol
Adeilad ar yr Hen Dramffordd
Old Upper Lion
Oriel
Adeilad allan
Adeilad allan
Adeilad allan i Westy'r Bell
Adeilad allan, Trebowen
Parc View
Pen y Bryn
Penbont Cottage
Penbryn
Penyrheol
Pentwyn Barn
Penyrwrlodd
Penyrwrlodd
Pen-yr-wyrlod
Pen-yr-wyrlod Barn
Phoenix House
Preswylfa
Rheiliau ger Bank View
Trochfa defaid Rhiangoll
Corlan neu hafod Rhiangoll
Rhosgwn
Rhyd-y-bont
Rhyd-y-bont
Rhyd-y-Car
Rose Brook Cottage
Y Clwb Rygbi
Scanbury a The Cottage
Siopau
Sorgwm
Ysgubor 2 Sorgwm
Fferm Sorgwm
Swan House
Tegfan
Gwesty'r Bell
The Cottage
The Limes
The Lodge
The Old Vicarage
The Orchard
The Revel
The Revel Barn
The Strand Cafe
The Tower
Top House
Tower Lane
Tram Bridge

Trebowen
Troed-yr-Harn
Troed-yr-Harn
Twynffrwd
Fferm Twynffrwd
Ty Arfon
Ty Bach Cottage, High Street
Ty Craig
Ty Pyraid
Tydfil
Ty-Du
Tyisha
Tyisha Barn
Ty'r-bryn
Ty-Timon
Upper Trewalkin
Upper Trewalkin
Wal ar hyd The Bank
Waliau Bryncelyn
Waterfall Cottage Bell Street
Waun Fach Forge
Well House
Wern
Wern Barn
Wern Fawr
Fferm Wern Fawr
Fferm Wern Fawr
Wernfawr
West View
Whitelow Farm
Ffermdy ac ysgubor Whitelow
Woodlands
Ysgoldy
Ysgoldy
DINAS
OLD SCHOOL
1 Trefecca Rd
Corlan Ffald Uchaf
Corlan
Corlan Cwm-y-nant
Wern Frank

**Tabl 2:** **Adeiladau a allai gael eu cwmpasu gan Erthygl 4(2)**

| Cyfeiriad | Ffenestr / Drysau | Paentio'r ffasâd | Portsh | Waliau/ rheiliau/ ffensys gerddi | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1-4 Swan Terrace | √ | √ | X | X | |
| 1-6 Regent Street | X | √ | X | √ | |
| 7 Regent Street | √ | √ | X | √ | |
| 1 a 2 Black Lion Cottages | X | √ | X | √ | |
| 1-6 Church Terrace | √ | √ | √ | X | |
| 1 Cottage Lane | √ | X | X | X | |
| 1 Powell Terrace | X | √ | √ | √ | |
| 1-3 Aberenig Terrace | √ | √ | X | X | |
| 1-6 Lower Hospital Villas | √ | √ | √ | √ | |
| 2 High Street | X | √ | X | X | |
| 3-6 Hay Road | √ | √ | X | √ | |
| 3 High Street | X | √ | X | X | |
| 3 Powells Terrace | √ | √ | X | √ | |
| 7 Regent Street | √ | √ | X | √ | |
| Aberenig | √ | √ | √ | √ | |
| Bank View | √ | X | X | √ | |
| Bridge Cottage | | √ | | √ | |
| Bristol Cottage | √ | √ | X | X | |
| Bron-y-garth | √ | X | X | √ | |
| Bryn Hedd | √ | √ | √ | √ | |
| Brynawel | √ | √ | √ | X | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfeiriad | Ffenestr / Drysau | Paentio'r ffasâd | Portsh | Waliau/ rheiliau/ ffensys gerddi | |
| Brycelyn | X | X | X | √ | |
| Cambrian House | √ | √ | √ | √ | |
| Castell-yr-Eos | √ | √ | √ | √ | |
| Church Villa | √ | X | √ | √ | |
| Craigend | √ | X | √ | √ | |
| Creigiau Cottages | √ | √ | √ | √ | |
| Cynog Cottage | √ | √ | √ | √ | |
| Ennig Villa a Rhandy | √ | √ | √ | √ | |
| Fernleigh | √ | √ | √ | √ | |
| Grovelly | X | X | √ | √ | |
| Hendre | √ | X | X | √ | |
| Hillcroft | √ | X | √ | √ | |
| Lawnton House | √ | √ | X | X | |
| Manchester House | √ | √ | X | X | |
| Mount Pleasant | √ | √ | X | √ | |
| Nythfa | √ | X | √ | √ | |
| Old Font House | √ | √ | √ | √ | |
| Hen Swyddfa'r Post | √ | X | X | X | |
| Old Upper Lion | √ | X | √ | √ | |
| Scanbury | √ | √ | √ | √ | |
| The Cottage | √ | √ | √ | √ | |
| Tegfan | √ | √ | √ | √ | |
| Top House | √ | X | √ | √ | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Trebowen | √ | √ | √ | √ | |
| Woodlands | √ | √ | √ | X | |
| Neuadd Felin | √ | √ | √ | √ | |
| Preswylfa | | √ | √ | √ | |
| Oriel | | √ | √ | √ | |
| 1-3 Castle Terrace | X | X | X | √ | |
| Swyn yr Afon | X | X | X | √ | |
| Cardiff House | X | X | X | √ | |
| The Cottage | X | X | √ | X | |
| Ty-timon | X | √ | √ | √ | |
| Old Carpenters Shop | √ | X | X | √ | |
| Grovelly Cottage | √ | X | X | √ | |
| The Orchard | √ | √ | X | √ | |
| Parc View a dau drws nesaf | X | √ | √ | √ | |
| The Limes | X | X | X | √ | |
| New House | √ | √ | X | √ | |
| Man-Yr-Maul | X | √ | X | X | |
| Ardwyn | X | √ | X | X | |
| The Bungalow | X | √ | X | X | |
| The Hawthorns | X | √ | X | X | |